



Llais O gwwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen



Rhifyn 494 • Rhagfyr 2018 • 50c

Penwythnos Bythgofiadwy

Rhyddhau albwm newydd 'Merrie Land' gan The Good, the Bad and the Queen

Fel y cyhoeddwyd o'r blaen bu'r côr yn ddigon ffodus i gael rhan yn albwm y canwr roc byd enwog o Lundain, sef Damon Albarn, o'r grŵp **'The Good, the Bad and the Queen'**. Ar ddechrau Rhagfyr bu'r côr yn Blackpool yn lansiad yr albwm newydd, lle buom yn canu yn y gân 'Lady Boston.' Disgrifiwyd y gân honno gan feirniad roc y Sunday Times fel, "a melody of shattering, tear inducing beauty" ac yna, "the male choir (Côr y Penrhyn) intoning 'We won't forget' and you just know; this album is a masterpiece".

Deigryn yn dod i'w lygaid

Mae Damon Albarn yn cytuno, "Nefoedd yr adar, mae'n dod â deigryn i fy llygaid wrth feddwl am gael canu gyda'r côr yna eto.

Roedd gweithio gyda nhw yn un o brofiadau cerddorol hyfrytaf fy mywyd. Mi synnais faint o effaith gafodd yr holl beth arna i, oherwydd hyd hynny rôl i wedi cael y Cymry yn rhai anodd i ymwneud â nhw ac rôl i'n teimlo nad oedd llawer o groeso i mi yng Nghymru. Rŵan dwi'n teimlo'n gwbl wahanol ac dw i wedi dod i'w caru."

Ebychiadau o werthfawrogiad

Mewn theatr ym mhendraw pier y gogledd yn Blackpool nos Sadwrn, 1 Rhagfyr lansiwyd yr albwm newydd o flaen cynulleidfa o dros 1500 o ddilynwyr brwd y band. Pan ganwyd 'Lady Boston' adroddodd y Blackpool Gazette, "Clywyd ebychiadau o werthfawrogiad o'r llawr, pan agorodd y llen yn y cefn i ddangos côr meibion llawn yn ymuno â'r band i ganu 'Lady



Boston' gyda'u lleisiau dyfnion yn diasbedain o gylch yr awditoriwm."

Mae Damon Albarn yn berchen ar gydwybod cymdeithasol gref ac mae'n eirias o blaid cyfiawnder a chadw pobloedd yn un. Oherwydd hynny, mae'n gofidio'n fawr am ganlyniadau Brexit ac yn dweud ei fod yn poeni am gyflwr meddwl ei gydwladyr. Daeth ei bersonoliaeth gadarn a'i egwyddorion dyfnion yn amlwg yn y sgysiau a gafodd gyda nifer o aelodau'r côr cyn y cyngerdd ac wedi hynny. Yn wir, mae ei argyhoeddiadau yn cael lle amlwg yn ei berfformiadau. Dyma brofiad i'w drysori am oes i aelodau Côr y Penrhyn.

Dywedodd Alun Davies "Da

ni fel aelodau'r côr wedi cael y cyfle i berfformio mewn achlysuron arbennig iawn dros y blynyddoedd, a mae rhai am aros yn y cof am byth. Canu'r anthem yn stadiwm Caerdydd pob amser yn brofiad emosiynol, cawsom ganu yn y Ganolfan Diwylliannol Chicago, ac 'roedd hwnw yn brofiad a wnaeth i amryw aelod o'r côr ollwng deigryn neu ddau, ond 'roedd y profiad, anhygoel, nos Sadwrn 1af o Ragfyr yn sefyll gyda'r goreuon o'r profiadau yma.

Tybiwn bod y rhan helaeth o'r gynulleidfa, o 1500, yn y Theatr ar y "North Pier" yn Blackpool erioed wedi clywed côr meibion yn canu, heb sôn am ganu yn y Gymraeg, a phan sylweddolodd y dorf ein bod ni ar y llwyfan, fe ffrwydrodd y cymeradwyaeth,

parhau ar dudalen 6



Damon Albarn a'i gyfeillion yn 'The Good, the Bad & the Queen

Nadolig

A gwên parhawn i ganu, -- i gyfarch
Un gafwyd i'n caru;
Yn brydlon a llon yn llu
Ato down ni i'r llety.

DILWYN OWEN



Panel Golygyddol

- Derfel Roberts
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
☎ 07867 536102
carwynnian@hotmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk
- Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Orina Pritchard.

Y golygydd ym mis Ionawr fydd
Owain Evans,
5 Rallt Isaf, Gerlan,
Bethesda,
Gwynedd, LL57 3TD.
07588 636259
E-bost: owain.evans1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 02 Ionawr
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 17 Ionawr**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Dalier sylw: nid oes
gwarant y bydd unrhyw
ddeunydd fydd yn
cyrraedd ar ôl y dyddiad
cau yn cael ei gynnwys.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Siop Richards

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran



Dyddiadur
y Dyffryn

Rhagfyr

- 23 Gwasanaeth Naw Llith a Charol.
Eglwys St. Tegai am 5.00.
- 24 Cymun Noswyl y Nadolig. Eglwys
St. Tegai am 11.15yh.
- 27 Gig Nadolig. Celt a Maffia Mr.
Huws. Neuadd Ogwen am 7.30

Ionawr

- 02 Premiere DEIAN A LOLI. Neuadd
Ogwen am 12.30 ; 2.00 a 3.30.
- 03 Sefydliad y Merched Carneddi.
Gweithdy Crefft. Cefnfaes am 7.00.
- 10 Cymdeithas Jerusalem. Noson
yng nghwmni Angharad Tomos. Y
festri am 7.00.
- 12 Marchnad Ogwen. Neuadd
Ogwen. 9.30 – 1.00.
- 14 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen.
David Elis-Williams. Festri
Jerusalem am 7.00.
- 17 Noson Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.
- 18 Atgofion ar Gân. Meddygfa
Bethesda am 1.15 – 2.30.
- 23 Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod
Gadeiriol D. Ogwen. Festri
Jerusalem am 7.30.
- 26 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracy
Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 28 Te Bach. Festri Carmel. 2.30 – 4.00.
- 29 Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.
- 30 Clwb Hanes Rachub. Neville
Hughes. Festri Carmel am 7.00
- 31 Raffl Santes Dwynwen a Bingo St.
Tegai. Neuadd Talgai am 7.00.

Chwefror

- 01 Atgofion ar Gan. Meddygfa
Bethesda. 1.15 – 2.30.
- 02 Bore Coffi Gofalwyr Gwynedd a
Môn. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184





Gawn ni Ddiogelu ein Henwau Lleoedd?

Aeth blwyddyn heibio o'r bron ers y diwrnod eithriadol lwyddiannus ym mis Chwefror diwethaf pryd y daeth lliaws o ardalywyr i Neuadd Ogwen i gofnodi enwau caeau a safleoedd diddorol a phwysig ein hardal. Ond fel y dywedwyd ar y pryd megis dechrau y mae'r gwaith! Mae sefyllfa ddiddorol yn Nyffryn Ogwen oherwydd mae gennym ni gofnod llawn o holl enwau caeau'r ddau blwyf yn 1768, ond am ryw reswm ni chawsant eu cofnodi gan swyddogion y Degwm yn 1845. Felly, wrth i batrymau ffermio a seiliau cymdeithas newid yn ein cyfnod ni mae'n eithriadol bwysig ein bod yn cofnodi

yr enwau sy'n aros cyn iddynt fynd i ddifancoll. Ein bwriad yw ail-sefydlu'r dasg o gofnodi mwy o enwau yn y flwyddyn newydd wnaiff arwain at gynnal 'marchnad' cofnodi enwau debyg i'r un a gynhaliwyd y llynedd. Yn rhagarwain i drefnu'r diwrnod bwriedir rhannu'r ardal yn unedau llai gan ofyn am gydweithrediad unigolion a ffermwyr gwybodus yn y rhannau hynny lle mae'r cofnod presennol yn brin. Yn ogystal gobeithir cael cydweithrediad gan sefydliadau a cymdeithasau'r fro, megis ein Cymdeithasau Hanes, y Clwb Ffermwyr Ifanc a'r ysgolion lleol a allai sefydlu prosiectau a fyddai'n

cyfrannu'n allweddol i'n gwybodaeth. Mae hyn oll yn bosibl gyda threfniadaeth, chwilfrydedd, dyfalbarhad a chefnogaeth gan bawb sy'n ymddiddori yn hanes ein hardal. Yr ydym yn ffodus fod Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, gyda chyfraniad brwdfrydig Dr Rhian Parry, yn fwy na bodlon i gefnogi a chynghori ar ein gwaith o gasglu a chofnodi. Bydd manylion pellach ynghylch trefnu'r gwaith o gasglu a chofnodi enwau lleol ein hardal yn ymddangos yn y Llais ac mewn mannau eraill yn ystod y flwyddyn newydd - felly yng Nghymraeg cyhyrog yr unfed ganrif ar hugain, watsh ddys spês!

Rhoddion i'r Llais

- £25 Er cof am fy annwyl wraig, Bronwen Davies, a hunodd 29 Rhagfyr 2017, oddi wrth Alan a'r teulu, Porthaethwy.
- £20 Er cof annwyl am Gwyn ar ddydd ei benblwydd, 8 Rhagfyr, oddi wrth Angela a'r plant, Paul Siôn a'r genod, a dad a mam, John a Gwen, Tanysgafell.
- £5 Sulwen Lloyd, 43 Abercaseg, Bethesda.
- £20 Er cof annwyl am Dylan Rowlands, oddi wrth dad, mam a'r teulu.
- £20 Teulu'r ddiweddar Heulwen Hughes, Blaenau Ffestiniog (Heulwen Price, gynt o Rhiwlas).
- £25 Mrs. Glenys Jones, Adwy'r Nant, er cof am ei merch, Rhian Mair, a'i mab, David Gareth.
- £38 Mrs. Jennie Jones, 11 Bryn Caseg, Bethesda.
- £100 Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.
- £300 Cyngor Cymuned Pentir.
- £50 Er cof am Caeron a Nancy Roberts, Erw Faen, Tregarth oddi wrth Mrs Jois Snelson, Dinbych a Mr Bryn Roberts, Caerdydd.
- £28 Di-enw, Ynys Môn
- £25 Er cof annwyl am Rhiannon Rowlands oddi wrth Arthur a'r teulu. Nadolig Llawen i bawb yn Nyffryn Ogwen
- £18 Mr Ken Jones, Edgware, Llundain
- £13 Mrs Susan Jeffries, Caerdydd
- £11.65 Mr Huw Brown, Y Swistir
- £10 Mrs Mair Jones, Windsor
- £8 Mrs Donna Coleby, Preston
- £8 Mr Gwynfryn Davies, Caernarfon
- £8 Mr Don Hughes, Halifax
- £10 Er cof annwyl am Raymond Williams, Rhes Douglas, a fu farw ar 24 Rhagfyr, oddi wrth ei briod, Barbara a'r teulu.
- £20 Er cof annwyl am Brenda Owen, 12 Ffordd Ffrydlas, oddi wrth Selwyn, Alwena, Nerys a Medwyn.

Diolch yn fawr

Pedsa bach ni - Hogia'r Bonc

Mae Hogia'r Bonc yn ugain oed eleni - ac yn ystod y cyfnod pleserus iawn yma buom yn perfformio o gwmpas Gogledd Cymru yn bennaf. Ar ben hynny cawsom deithiau i'r Iwerddon, Llundain a hyd yn oed yr Unol Daleithiau, gan berfformio yn Cincinnati yn ystod taith Côr y Penrhyn i Gymanfa Ganu Gogledd America. Hon yw'r drydedd CD i ni ei chreu - y ddwy arall yw Y Rheol Bump ac Un Cam yn Nes. Mae un neu ddau o'r aelodau wedi gadael y grŵp bellach, ac un neu ddau wedi ymuno o'r newydd dros y blynnyddoedd, ac 'rydym yn llwyr gredu bod canu gyda Hogia'r Bonc wedi'n cadw yn ifanc ein hysbryd, er ein bod i gyd yn heneiddio erbyn hyn! Recordiwyd y rhan helaeth o'r CD yma yn nhŷ Alun yn "Penrallt", Gerlan, gyda chyfarpar recordio Côr y Penrhyn ac



mae'n diolch yn fawr i'r côr am gael ei ddefnyddio. Mae ein diolch hefyd i Russ Hayes, Orange Studio ym Mhenmaenmawr, am wneud gwyrthiau gyda'r traciau amrwd o'r recordiadau a gynhyrchwyd mewn ystafell fechan iawn, heb anghofio Menai Williams sydd, pob amser, yn fodlon trefnu harmonïau i ni. Recordiwyd un neu ddau o'r traciau yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda oddeutu 10 mlynedd yn ôl, ond ni chyhoeddwyd hwy y pryd hynny, dim ond eu dosbarthu i ffrindiau agos fel arwydd o ddiolch am eu cefnogaeth. Mae'r traciau hynny yn cynnwys aelodau nad ydynt yn canu gyda ni bellach.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

- Gwobrau Rhagfyr**
- £30.00 (117) Gwenda Bowen, Stryd Hir, Gerlan.
 - £20.00 (81) Gwenno Jones, Y Wern, Gerlan.
 - £10.00 (59) Ann T. Jones, Tal y Cae, Tregarth.
 - £5.00 (67) Sheila V. Owen, Dolhelyg, Talybont.
- (Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned. Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd



Aelodau'r côr gydag **Owain Arwel Davies** a **Frances Davies** y tu allan i Gastell Penrhyn

Gwlad, Gwlad! Côr y Penrhyn yn rhyddhau albwm newydd

Adroddiad gan Derfel Roberts

Mae Côr y Penrhyn wedi rhyddhau CD newydd o'r enw **Gwlad** ar gyfer y Nadolig sy'n cynnwys clasuron Cymraeg a Saesneg. Mae'r CD hwn, sy'n brosiect a gynhyrchwyd gan y côr, yn anrheg Nadolig hwylus a chyfleus i'w anfon i deulu a chyfeillion ymhell ac agos.

Artistiaid cerddorol gorau'r wlad
Meddai Owain Arwel Davies, arweinydd Côr y Penrhyn, "Mae'r prosiect hwn wedi bod yn gryn antur ac wedi golygu oriau o lafur caled i bawb." Aeth Arwel, sydd wedi bod yn arwain y côr ers dros ddeng mlynedd bellach, ymlaen i ddweud, "Hwn ydy'r trydydd CD i ni gynhyrchu ers pan dw i efo'r côr a bu gwerthiant rhagorol ar y CD

ddwytha', sef Anthem. Gorffennodd Arwel ei sylwadau trwy nodi ei fod yn gobeithio y bydd cystal gwerthiant ar y CD presennol, gan fod y côr wedi llwyddo i gydweithio



gyda rhai o artistiaid cerddorol gorau'r wlad wrth wneud hwn, ac wrth gwrs, gyda'n cyfeilyddes dalentog, Frances Davies."

Ar y record ceir clywed y darn, **Tiroedd ein Cof** a gomisiynwyd, gyda nawdd Tŷ Cerdd, er cof am y diweddar Tom Morgan a fu'n aelod am 60 mlynedd ac a ddiweddodd ei oes fel llywydd y côr. Ysgrifennwyd y geiriau gan Ieuan Wyn a'r gerddoriaeth gan Dr Owain Llwyd. Mae hwnnw'n ddarn arbennig oherwydd mai'r band byd-enwog 'Black Dyke' o Swydd Efrog sy'n perfformio'r cyfeiliant i'r gân.

Darnau newydd a rhai cyfarwydd
Yn y Gymraeg, mae **Y Ddau Wladgarwr** a **Mor fawr Wyt Ti**. Mae'r cyntaf yn enwog fel darn i ddeuawd tenor a bas tra bod yr ail yn emyn swynol o foliant i fyd natur wedi ei seilio ar alaw werin o Sweden.

Yn y Saesneg ceir **Bring him home** allan o'r sioe gerdd enwog 'Les Miserables' a **Battle Hymn of the Republic**, darn a anfarwolwyd gan y diweddar Tom Morgan ei hun gyda'i lais bariton cyfoethog.

A hithau'n dynesu at y Nadolig, cwbl addas yw bod dwy garol ar y record sef **Cofio Crist** a drefnwyd gan Menai Williams sy'n gyn arweinydd ar y côr ac 'O Ddwyfol Nos' o waith Mary S. Jones, cyn arweinydd arall ac Owain Arwel Davies, yr arweinydd presennol.

Roedd Hywel Thomas, sy'n canu gyda'r tenoriaid cyntaf yn falch o'r ffaith y bydd



ei lais i’w glywed ar y record yn canu’r unawd yn **Cwyn y Gwynt** gan Syr John Morris Jones. Trefnwyd y gân allan o ddarn i’r offeryn Bandiwr o’r Wcráin gan Aled Williams o’r adran fariton ac Owain Arwel. “Mae dewis helaeth o ganeuon i’w clywed ar y CD”, meddai Hywel “ac mae rhywbeth fydd yn apelio at bawb arni.”

Band Pres yn gwneud gwahaniaeth

Hoff ddarnau Maldwyn Pritchard, trysorydd y côr, ar y cryno ddisg ydy **Mor Fawr Wyt Ti’ a Heriwn, Wynebwn y Wawr**. Pan ofynnwyd i Maldwyn beth oedd o’n credu oedd yn wahanol am CD Côr y Penrhyn, dywedodd, “Mae gynnon ni fand pres byd enwog yn cyfeilio ar rai o’r caneuon yn hytrach na dim ond cyfeiliant piano fel sydd gan y mwyafrif.”

Daliai Aled Williams, sy’n canu yn yr adran fariton, fod y côr, “yn ffodus iawn fod gennyn ni offer addas a doniau i allu creu traciau o safon”. Hefyd roedd o’r farn bod rhyddhau CD yn ymarfer gwerthfawr oherwydd bu mynd neilltuol o dda ar y recordiad diwethaf, “diolch i lond llaw o aelodau ymroddgar,” meddai. Ar yr un pryd credai y dylai’r côr edrych ar wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau lawrlwytho fel “iTunes” a “Spotify”, a rhoi fideo ar ‘YouTube’ a “Facebook” er mwyn cyrraedd cynulleidfahangach eto.

Dyma oedd gan Alun Davies oedd yn gyfrifol am y gwaith o greu clawr y CD a rhoi’r casgliad at ei gilydd i’w ddweud mewn ymateb i restr o gwestiynau a roddwyd iddo.

Beth oedd y symbyliad y tu ôl i fynd ati i greu CD newydd?

“*Rydau ni’n datblygu repertoire newydd yn gyson, ac felly mae cynulleidfaoedd yn cael blas newydd ar y côr. Gan ein bod yn dysgu caneuon newydd, a chan ei bod yn 5 mlynedd ers i ni ryddhau “Anthem”, mae galw cyson ar y côr i greu CD newydd. Yn ogystal, mae’n cadw diddordeb yr aelodau.*”

Oes yna rywbeth yn wahanol ynddi i CD corau eraill?
Dan ni’n lwcus iawn i gael gweithio gydag amrywiaeth o gerddorion, yn unawdwyr ac yn offerynnwyr. Ar y CD yma, mae ein cyfeillion yn y Black Dyke Band wedi cytuno i ymuno â ni ar ddau ddarn ac yn ogystal â Black Dyke, mae Patrick Rimes, Gwyn Owen a Angharad Wyn Jones yn chwarae ar wahanol draciau.

A fyddai rhyddhau ffilm o’r côr yn canu’r caneuon ar gyfrwng tebyg i YouTube neu yn haws ac yn cael cynulleidfahangach yn y pen draw?

Gan fod y rhan fwyaf o’n CD’s ni yn cael eu gwerthu i aelodau o’n cynulleidfahang, dyma’r unig gyfrwng mae aelod o’r cyhoedd yn

gallu ei brynu ar y noson. Mae creu ffilm yn ddefnyddiol i hybu gwerthiant, ond nid ydyw yn gyfrwng i rannu cerddoriaeth gan nad yw ansawdd y sain yn ddigon da. Ond gellir defnyddio iTunes a Spotify fel cyfryngau lawrlwytho i bobl brynnu’r caneuon.

Sut aethpwyd ati i gynhyrchu’r CD? Pa adnoddau technegol fel offer, stiwdio sain neu beiriannwyr a ddefnyddiwyd?

Mae’r côr yn ffodus iawn o gael cyfarpar recordio ein hunain sydd yn ei gwneud yn broses, weddol, hawdd i ni recordio. Rydan ni hefyd yn ffodus iawn bod ein Cyfarwyddwr Cerdd gyda’r arbenigedd i weithio’r offer ac yn gallu defnyddio’r meddalwedd i gymysgu’r traciau ar ôl recordio. Erbyn hyn mae rhai o’r côr wedi dysgu sut i osod y cyfarpar, sydd, wrth gwrs, yn arbed amser.

Bydd y CD ar werth o Ragfyr 4 ymlaen.

Buddugol Yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Daeth y côr i’r brig yn yr eisteddfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 16 yn Neuadd Ogwen. Dewisodd y côr ganu **‘Heriwn, Wynebwn y Wawr’** gan Gareth Glyn a **‘Mor Fawr Wyt Ti’** ar alaw werin o Sweden (trefniant Owain Arwel). Derbyniodd cyflwyniad y côr, dan arweiniad Caleb Rhys, ganmoliaeth uchel gan y beirniad am yr ymdriniaeth o waith Gareth Glyn. Isod gwelir llun o’r arweinydd ifanc, oedd yn llywio’r côr yn absenoldeb Owain Arwel, gyda’r tlws llechen a enillwyd ar y noson.

Caleb Rhys a’r tlws eisteddfodol Cyngerdd Nadolig yn y Gadeirlan

Ar Ragfyr 6ed bu’r côr yng Nghadeirlan Bangor yn cymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig gyda Chôr Glanaethwy ac Elin Fflur. Yr arweinydd ar y noson oedd Tudur Owen ac roedd yr elw er budd Hosbis yn y Cartref a Hosbis Dewi Sant. Braf oedd gweld yr eglwys hynafol yn llawn i’w hymylon ar gyfer yr achlysur a derbyniodd cyfraniadau pob un o’r artistiaid gymerdwyaeth gwresog.



Llythyr

Maes Meini
Rhyduchaf
Y Bala
LL23 7SD
01678 520293
maes.meini@btinternet.com

22/11/18

Annwyl Syr/Madam
Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyrwr Cymraeg sy’n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddianus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o’r gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgwylir i’r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD. maes.meini@btinternet.com Y dyddiad cau fydd 14 Chwefror, 2019.

Gyda diolch,
Yn gywir,
Medwen Charles

Rhifyn Ionawr
Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 02 Ionawr
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 17 Ionawr**,
yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)



Rhwystredigaeth cynghorwyr sir Dyffryn Ogwen gyda Llywodraeth Cymru am y trafferthion parcio yn ardal Llyn Ogwen

Mae pedwar cynghorydd sir yr ardal yn rhwystredig oherwydd diffyg gweithredu'r Ysgrifennydd Cabinet, **Ken Skates** ynglŷn â phroblemau parhaus ceir wedi parcio ar hyd yr A5 yn ardal Llyn Ogwen.

Mae dros flwyddyn wedi pasio ers i'r Cynghorydd Plaid Cymru, **Dafydd Meurig** sydd â chyfrifoldeb dros yr Amgylchedd yng Ngwynedd gysylltu â'r Ysgrifennydd Cabinet Llafur dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru i holi am weithredu a chynllun pendant i chwilio am ddatrysiad buan i'r broblem yn yr ardal.

Mae'r cynghorydd wedi anfon lluniau o'r broblem at y Gweinidog iddo weld y trafferthion drosto'i hun. Mae'r lluniau yn dangos yn amlwg, ceir wedi parcio blith draphlith ar hyd y ffordd gan ei gwneud hi'n anodd i gerbydau mawr basio ei gilydd, ac yn bwysicach, cynyddu'r risg o ddamwain i gerbydau, cerddwyr ac ymwelwyr.

Mae chwe mis wedi pasio ers i'r Gweinidog dderbyn astudiaeth ddichonoldeb o'r problemau parcio mewn gwahanol leoliadau ar yr A5 ger Bwthyn Ogwen a Llyn Ogwen ond eto i gyd does DIM gweithredu wedi bod gan y Llywodraeth.

Yn ôl y Cynghorydd **Paul Rowlinson**, "Yn y Senedd ym mis Hydref, holodd ein Haelod Cynulliad **Siân Gwenllian** pryd byddai'r astudiaeth ddichonoldeb ar y broblem barcio yn cael ei rhyddhau. Yr ateb ddaeth i law, oedd bod yr adroddiad yn cael ei gyfieithu. Fel cyfieithydd fy hun, allai ddim derbyn ei bod yn cymryd hyd at chwe mis i gyfieithu dogfen deg tudalen".

Yn ôl y Cynghorydd Dafydd Meurig: "Mi wyddon ni fel pobl leol sy'n byw efo hyn drwy'r tymor twristaidd mai hen broblem yw hon. Rydym yn croesawu ymwelwyr i'r ardal gan ei fod yn ddiwydiant sy'n cynnal teuluoedd lleol. Ond mae'n dod ar gost, ac yn anffodus cost i bobl leol sy'n ceisio byw eu bywydau o ddydd i ddydd yw hyn i raddau.

"Mae'r oedi parhaus gan Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â'r mater yma'n gwbl annerbyniol. Mae cyfnod twristaidd arall wedi

mynd heibio a diffyg gweithredu llwyr. Mae'n hen bryd dwyn y maen i'r wal gyda'r broblem yma fel bod datrysiad mewn lle erbyn cyfnod y Pasg 2019. Dyna'r rheswm pam mae fy nghyd gynghorwyr yn Nyffryn Ogwen a minnau wedi anfon gohebiaeth unwaith yn rhagor at Ken Skates yn pwysu am weithredu."

Yn ôl y Cynghorydd **Dafydd Owen**: "Mae'r diwydiant twristaidd yn ehangu ond mae diffyg buddsoddiad llwyr gan Lywodraeth Cymru i ddelio efo'r broblem barcio. O'n trafodaethau gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, Cyngor Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri sydd wedi bod yn ceisio delio efo'r broblem, mae'r datrysiad yn eithaf syml ar gost fechan. Felly pam o pam nad yw'r Gweinidog yn gweithredu?"

Yn ôl Y Cynghorydd Dafydd Meurig: "Ein teimlad ni ydi bod angen edrych ar yr holl opsiynau posib: o osod cyfyngiad parcio ar yr A5 yn ardal Llyn Ogwen, i ffioedd parcio i orfodaeth, o wasanaeth bysus Sherpa i barcio a theithio o leoliadau cyfagos. O'r trafodaethau rydyn ni wedi eu cael yn lleol mae modd cael datrysiad all gael effaith gadarnhaol ar economi ardaloedd cyfagos megis Bethesda a Chapel Curig hefyd.

Yn ôl y Cynghorydd **Rheinallt Puw**, Ward Ogwen: "Mae cyfleoedd i ardal Bethesda gynorthwyo gyda phroblemau parcio yn yr ardal. Byddem yn falch o drafod a chydweithio i gyflwyno sustem parcio a theithio o'r ardal, fyddai'n sicr yn dod â mantais economaidd i Stryd Fawr Bethesda wrth gael ymwelwyr yn gwario yn y dref, yn hytrach na phasio drwy'r ardal."

Yn ôl Siân Gwenllian AC Arfon: "Mae'r oedi ar y mater yma'n effeithio ar drigolion lleol yn ddyddiol. Mae pryder am ddiogelwch ar y ffordd oherwydd bod traffig yn drwm yn yr ardal, bod cerddwyr a beicwyr yn mwynhau'r ardal ac oherwydd bod pobl leol yn ceisio parhau â'u gwaith bob dydd. Mae'r ardal yn lleoliad sydd bellach yn denu ymwelwyr gydol y flwyddyn, felly mae gwir angen edrych ar y broblem er mwyn canfod datrysiad tymor hir."

parhad o dudalen 1

ac yna, yn sydyn, dyma nhw yn dechrau gwrandao a sylweddoli ein bod yn canu yn y Gymraeg, ac am ychydig fe farwodd y bloeddio, nes i ni ddod i ddiwedd y gân a'r dorff

yn mynd yn wallgof. Fe aeth fy nhgroen yn oer a pinnau mân i gyd, profiad anhebyg i unrhyw beth dwi wedi'i deimlo pan yn canu gyda'r côr yn y gorffennol, hollol, hollol anhygoel. Wedyn, yn y bar ar ddiwedd y cyngerdd pan ddechreuom ganu Moliannwn ac ati, 'roedd

y cyntedd, a'r grisiau yn llawn o bobl yn gwrandao a mwynhau, a chawsom nifer fawr o bobl yn dod atom ac yn ein llongyfarch ar y perfformiad, rhai yn dweud bod nhw a pobl o'u cwrmpas yn ddagreuol iawn. Profiad arall bythgofiadwy yng nghwni aelodau Côr y Penrhyn."

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái
☎ 600744

Diolch

Dymuna Mrs. Janet Williams, Rheinalt a Rhys, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl yn Awstralia.

Ysbyty

Bu Mrs. Mair Williams, Arafon, yn yr ysbyty am lawdriniaeth. Dymunwn adferiad buan i chwi!

Y Clwb Ieuencid

Mae'r Clwb Ieuencid yn diolch i bawb am y rhoddion a'r gefnogaeth ar noson y Bingo Nadolig. Maent yn ddiolchgar dros ben ac yn dymuno Nadolig Llawen i chwi oll.

Cyfarchon y Tymor

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref. Dathliad Hapus i chwi.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Rhagfyr 23ain: 9.30 y.b. Cymun Bendigaidd
Noswyl y Nadolig: 11.30 y.h. Cymun Bendigaidd
Rhagfyr 30ain: 9.30 y.b. Cymun Bendigaidd
(Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn).

Ionawr 6ed: 9.30 y.b. Cymun Bendigaidd

Ionawr 13eg: 9.30 y.b. Boreol Weddi
Ionawr 20fed: 9.30 y.b. Boreol Weddi

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau dros yr Ŵyl. Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Carem estyn ein diolch i'r Parchedig John Matthews a'r Parchedig Christina McCrea am eu gofal a'u caredigrwydd yn ystod y flwyddyn; â'n diolch i bawb â'n cefnogodd gydol y flwyddyn 2018.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!



Ysgol Abercaseg

Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol a fu’n cymryd rhan yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen .Bu nifer o’r plant yn llwyddiannus yng nhystadleuthau canu, llefaru, gwaith celf a llawysgrif. Diolch i bawb a fu’n cystadlu.

Bocsys Nadolig
Trefnodd grŵp” Ffrindiau’r Byd” fod yr ysgol yn casglu bocsys nadolig ar gyfer yr elusen T4U.Casglwyd 27 o focsys ac yn sgil y weithgaredd yma dysgodd pob dosbarth ynglyn a phwysigrwydd ewyllys da.



Pc Owain
Daeth Pc Owain i ymweld a Bl2 i drafod pobl sy’n ein helpu yn y gymuned megis y frigad dân neu’r Bad Achub.Trafodwyd ar ôl edrych ar ffilm fer .Pwy fuasai’r plant yn ei alw ar gyfer gwahanol argyfyngau? Roedd pawb wedi mwynhau a dysgu llawer.Bydd pawb yn edrych ymlaen am ei ymweliad nesaf lle caiff y plant gyfle i weld car yr heddlu.

Ymweliad a Chastell Penrhyn
Yn dilyn syniadau’r rhieni am gyfleoedd diddorol i helpu’r plant ddatblygu, trefnwyd ymweliad i Gastell Penrhyn. Braf oedd cael mynd a disgyblion blwyddyn 2 i ymweld â’r Castell er mwyn gweld sut oedd y Nadolig yn cael ei ddathlu yn Oes Fictoria. Cafodd pawb gyfle i wneud cerdyn a defnyddio’r hen ffordd o stampio. Cafodd pawb wneud cracer yn o gystal



â hyn cafodd pawb gyfle i wneud torch personol drwy ddilyn cyfarwyddiadau gweithwyr y castell. Roedd pawb wedi gwirioni gyda’r adeilad a’r holl luniau ar y ffenestri. Ond y goeden Nadolig enfawr oedd wedi dal llygaid y plant fwyaf. Diolch yn fawr i’r holl staff a gwirfoddolwyr.

Plant Mewn Angen
Roedd pawb yn edrych ddigon o sioe wedi gwisgo eu pyjamas ar ddiwrnod Plant Mewn Angen casglwyd £131 o bunnoedd tuag at yr achos .Diolch i bawb am gyfrannu.

Robin Risg
Llongyfarchiadau i bawb a ymatebodd i waith yn ymwneud a’r arwr “Robin Risg”.Braf oedd gweld nifer o’r plant yn trio pethau newydd am y tro cyntaf. Cydnabuwyd eu hymdrech gyda thystysgrif “Robin Risg “.Da iawn bawb!

Ymddeol
Ar ol 36 o flynyddoedd gweithgar ac ymroddedig, mae Mrs Gwenda Roberts athrawes y dosbarth Derbyn wedi penderfynu ymddeol er mwyn cael amser gwerthfawr hefo’i theulu tra mae hi dal yn ddigon ifanc ac iach i wneud hynny!
Bydd llawer iawn ohonoch chi rieni yn ei chofio gan iddi hi addysgu y rhan fwyaf ohonoch ac yn gallu dweud nad ydi hi wedi newid dim!
Pob dymuniad da i chi Mrs Roberts. Mwynhewch pob munud hefo’r wyr a’r wyresau.

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

 600723
Ffacs: 605068

Y Gerlan

Caren Brown Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com
Heledd Selwyn, 2 Pen Clwt, Gerlan
LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640 /
heleddselwyn@hotmail.com

Gwobrwyo Cosyn Cymru
Llongyfarchiadau mawr i Carrie Rimes o’r Gwernydd. Mae ei chwmni gwneud caws, Cosyn Cymru, yn mynd o nerth i nerth. Mae ei chaws eisoes wedi ennill gwobrau, ond yn ddiweddar, enillodd wobr Olivia Mills am ei chaws Brefu Bach a Chaws Chwarel. Mae Carrie hefyd wedi prynu’r hen Eglwys Gatholig ym Methesda ac mae’r gwaith o’i drawsnewid i hufenfa yn ei ddyddiau cynnar. Pob lwc iti efo dy fenter newydd Carrie ac edrychwn ymlaen at flasur caws ym Marchnad Ogwen a Moelyci.

Babis newydd Gerlan
Llongyfarchiadau i Llinos a Gavin Owen Gwernydd ar enedigaeth eu merch fach Efa Megan. Edrychwn ymlaen at ei chyfarfod yn fuan.

Llongyfarchiadau i Elin Lloyd Ciltrefnus a’i phartner Joe ar enedigaeth eu merch fach Elsi Wyn Prynn a aned ar y 29ain o Fedi. Mae nain, Carys Wyn Williams, wedi mopio efo ei hwyres gyntaf. Pob hapusrwydd i’r teulu bach

Nadolig Llawn
Hoffai Myfanwy Jones (Anti Myf, Gwernydd) ddymuno Nadolig Llawn iawn i’w theulu a’i ffrindiau i gyd. Er na fydd yn gyrru cardiau Nadolig eleni, mae’n gyrru cofion cynhesaf a dymuniadau’r wyl i bawb.

Croeso adref
Croeso adref a gwellhad buan i Len Williams Ffordd Gerlan gafodd driniaeth yn ddiweddar yn yr ysbyty yn Lerpwl. Cofion cynhesaf atoch Yncl Len

Brysiwch wella
Gyrrwn ein cofion gorau hefyd at Myfanwy Jones (Anti Myf) sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod. Mae hi erbyn hyn wedi dod yn ôl i Fethesda ac yn cryfhau ym Mhlas Ogwen.

Cydymdeimlo
Ychydig wythnosau nôl bu farw Bessie Eardley a fu’n byw yn Gerlan. Gyrrwn ein cydymdeimlad at Chris, Tanya, Jackie, Geraint a’r teulu i gyd. Roedd Bessie yn ddynes annwyl a thawel a bu farw union flwyddyn ar ôl colli ei chwaer Amelia. Cofion cynhesaf atoch.



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Ceisiadau Ariannol 2018

Cyngor Cymuned llanddeiniolen

Derbyniwyd 20 cais i law. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu y ciosg ffôn yn Rhiwlas bellach, ac mae Rhiwlas gyda cronfa ar hyn o bryd gan obeithio hel tuag at gael diffryblydd a'i osod yn y ciosg. Fodd bynnag, ame angen drws ar y ciosg. Derbyniwyd cais am ddrws, sydd ar gost o £288 a bydd costau gosod yn ychwanegol. Penderfynwyd gan mai Y Cyngor Cymuned sydd berchen y ciosg y buasai y gost yma yn dod allan o gyllideb Cynnal a Chadw y Cyngor, yn hytrach nac yn rhodd ariannol. Cytunwyd yn unfrydol i fynd ymlaen a hyn, a'r clerc i wneud trefniadau gyda Hefin Williams, sydd wedi bod yn gysylltiedig a'r ymholiadau ynglyn a chael drws ar y ciosg.

Cydymdeimlo

Yn dawel yn Ysbyty Eryri bu farw Arianwen Griffiths o Bro Ogwen, Penrhosgarnedd, roedd yn wreiddiol o Bro Rhiwen, yn chwaer i'r ddiweddar Gwenfron, Betty Wyn a Gareth. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gŵr, Roy, y plant a'u teuluoedd a'i chwaer yng nghyfraith, Hefina.

Yn 99 mlwydd oed bu farw Annie Muriel Pritchard, o Waen Wen ac yn sicr hi oedd yr hynaf o gyn ddisgyblion Ysgol Rhiwlas. Gan fod y teulu yn byw yn Pen Cefn byddai'n sôn o hyd am gerdded i'r ysgol ar hyd Lôn Plas. Pan eisteddodd y "scholarship" i fynd i Ysgol Sir Bethesda, hi gafodd y marciau gorau drwy Sir Gaernarfon ac mae'n debyg i hyn gael ei gofnodii yn Yr Herald Gymraeg. Cydymdeimlwn â Mair a Jane a'u teuluoedd gan gofio ei bod yn nain i naw ac yn hen nain i ugain.

Merched y Wawr

Cyfarfod Mis Tachwedd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gwen, Gwenno, Jean, Jennie a Rhiannon a chwblhawyd y trefniadau ar gyfer ein cinio Nadolig ym Melin Seiont. Cafwyd llythyr gan Mary Roberts, Llwydd y Rhanbarth, yn gofyn am syniadau i gael y canghennau i ddod at ei gilydd yn y dyfodol.

Ein gŵr gwadd oedd Norman Evans, un o Niwbwrch ac un sy'n hynod o weithgar yn ei fro. Testun ei sgwrs oedd Traddodiadau'r Nadolig ac roedd wedi ymchwilio i darddiad y traddodiadau hyn, er enghraifft sut y penodwyd Rgagfyr 25 fel Dydd Nadolig, Torch yr Adfent a chan ei fod yn ymddiddori mewn gosod blodau cawsom

ei weld yn gwneud un. Roedd ganddo esboniadau am lu o ddigwyddiadau'r Nadolig ac am yr addurniadau a gysylltwn â'r Wyl. Gorffennodd y noson drwy ganu y garol, Roedd yn y Wlad honno, hen garol Gymreig. Diolchwyd iddo am noson hynod o ddifyr ac addysgiadol hefyd.

Diolch i Annes a Linda am baratoi'r baned.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Tachwedd 14

Y Llyfr Bach oedd testun y sgwrs, llyfr hynod o fach ond yn llawn o ffeithiau diddorol am Gymru a'i phobl a digwyddiadau arbennog.

Mair oedd yn gyfrifol am y baned a Jean enillodd y raffl.

Llongyfarchiadau

Eleni eto cafodd Linda Jones, Erw Wen, ei dewis i gynrychioli Merched y Wawr ar banel beirniadu y gystadleuaeth a drefnwyd gan gwmni Creision Jones a'r gamp oedd dewis y dorth frith orau. Cynhalwyd y gystadleuaeth yn Llandudno ac roedd oddeutu 80 torth i'w beirniadu. Joyce Smith o'r dref lan y môr oedd yr enillydd a dyma'r eildro iddi gystadlu. Roedd y beirniaid yn falch fod cystadleuaeth i'r rhai iau eleni a'r enillydd oedd Elin Gore o Ysgol Penweddig, Aberystwyth.

Diolch

Dymuna teulu y ddiweddar Heulwen Hughes, Ffestiniog, Wern, Rhiwlas gynt, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist. Maent yn ddiolchgar hefyd am y rhoddion er cof am Heulwen ac am ffyddlondeb "Genod Rhiwlas" yn ystod ei salwch blin.

Dymuno'n dda

Nadolig Llawen i'n darllenwyr gan gofio am y rhai sydd wedi cael blwyddyn anodd a bydd yr ŵyl yn sicr o ddod ag atgofion iddynt. Anfonir ein cofion atoch i gyd.

Calendrau Llais Ogwen

Mae'r calendrau ar eu newydddd wedd yn gwerthu'n dda, mae ychydig ar ôl. Cofiwch gysylltu os am gael un.

Diffib Rhiwlas - Cyngerdd 'Steve Eaves a Rhai Pobl'

Ar nos Wener 9fed o Dachwedd cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd Bentref Rhiwlas yng nghwmni 'Steve Eaves a Rhai Pobl', disgyblion Ysgol Rhiwlas, ac yn arwain y noson oedd y DJ 'Kev Bach'. Roedd holl elw'r noson yn mynd tuag at gronfa 'Diffib Rhiwlas', ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r artistiaid a gymerodd rhan yn hollol wirfoddol.

Gwerthwyd pob tocyn a braf oedd gweld y neuadd yn orlawn, a'r gynulleidfa yn mwynhau'r artistiad yn perfformio, yn ogystal a'r lluniaeth oedd wedi ei ddarparu gan aelodau'r pwyllgor ac aelodau o gangen Merched y Wawr Rhiwlas.

Prif wobr y raffl oedd dau docyn i fynd ar y wifren wib yn 'Zip World' Bethesda. Enillydd y wobr oedd y Cynghorydd Elwyn Jones, ac mae pawb yn edrych ymlaen yn arw i'w weld yn gwibio ar gyflymder o dros 100 milltir yr awr!

Diolchodd Elfyn Jones-Roberts ar ran pwyllgor 'Diffib Rhiwlas' i bawb fu ynghlwm â'r noson, a braf yw cyhoeddi bod y peiriant diffib bellach wedi ei archebu, a'r gobaith ydi y bydd yn ei gartref newydd yng nghiosg Bro Rhiwen erbyn y Nadolig!

Diffib Rhiwlas – Hanner Marathon Caerdydd



Llongyfarchiadau enfawr i Ceri Rhydian Owen (Is Ysgrifennydd pwyllgor 'Diffib Rhiwlas') ar gwblhau hanner marathon Caerdydd ym mis Hydref. Roedd Ceri yn casglu arian tuag at gronfa 'Diffib Rhiwlas' ynghyd a Ward Glyder (ward cardioleg Ysbyty Gwynedd, ble mae Ceri yn gweithio fel Prif Nyrs). Llwyddodd Ceri i godi dros £570 i rannu rhwng y ddau achos da. Roedd Ceri yn rhedeg gyda ei chwaer Sali, a bu iddynt gwblhau'r cwrs mewn amser anhrydeddus iawn – da iawn genod Rhiwlas!

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Profedigaeth

Ar Dachwedd 12 ym Mryn Seiont Newydd, Caernarfon, ac o Maes yr Hedydd, Tregarth, gynt o Morfa Nefyn, bu farw John Gwyn Roberts yn 62 mlwydd oed. Cofiw'n am Gwyn fel Gwerthwr Tai yn ardal Bangor a thuhwnt am nifer dda o flynyddoedd. Cydymdeimlwn gyda Awen ei briod, a'i blant Iestyn, Bedwyr, Seren a Meirion a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Bu farw Elizabeth Helen Evans(Bing) ar Ragfyr 1 yn ei chartref Apapa, Tan yr Onnen, Tregarth a chynt o Rhos y Coed, Bethesda. Roedd yn briod â'r diweddar Heddwes Gwyn Evans a chydymdeimlwn gyda ei ffrind Brian a'i phlant Barry, Sian a'i phartner Arwyn, Nain Gethin a Lois a gyda ei theulu i gyd. Bu ei hangladd yn Eglwys Glanogwen , Bethesda, Dydd Iau, Rhagfyr 6.

Dathlu Penblwydd

Dathlodd y cynheddwes William Hughes, Isallt, Allt Cerrig Llwydion, ei benblwydd yn 95 oed ar ddiwedd Mis Tachwedd. Gobeithio i chi gael diwrnod i'w gofio gyda'r teulu. Penblwydd hapus iawn.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth
Daeth y gangen ynghyd ar Dachwedd 5 ar gyfer noson o Frethyn Cartref gyda rhai o'r aelodau wedi dod a'u hoff rysait gyda hwy i Festri Capel Shiloh i'w rhannu hefo pawb arall ! Cafwyd gwledd o ddanteithion. Digon i dynnu dŵr o ddannedd!! Rysait Angharad oedd Tiramaw, neu Treiffi Posh fel y gelwir ef yn Ffordd Pant! Cawsom ei flas ac roedd yn foethus dros ben. Yn dilyn death Janet gyda rysait gwahanol am Fara Brith, Iona Rhys gyda cishes bach a chytnei mae yn ei baratoi at y Dolig yn Mynydd Llandygai. Cacwn Sbwng oedd dewis rysait Andrea a Myfanwy yn cloi y noson gyda Teisen Lemwn. Do, cawsom damaid o'r holl fwydydd a rhyfeddu at y dalent sydd gennym yn y gangen. Diolch o galon genod. Rhian ddiolchodd iddynt ar ran pawb. Mae'n bleser cyhoeddi fod y gangen bellach gyda 44 o aelodau, y nifer fwyaf ers rhai blynyddoedd. Ac mae digon o le i chwane'g yn Festri Capel Shiloh ar y Nos Lun cyntaf ym mhob mis am 7.30 o'r gloch. Dewch , mae croeso cynnes yn eich disgwyl.

Cafwyd cyfle i dathlu'r Nadolig gyda swper ym Mwyty y Teras, yn y Brifysgol ym Mangor, Nos Lun, Rhagfyr 3. Daeth criw ardderchog ynghyd a mwynhawyd gwledd tri cwrs mewn awyrgylch braf. Llongyfarchwyd y merched fu'n cymryd

rhan yn y Cwis Cenedlaethol ym Meifod, Bontnewydd ym Mis Tachwedd ac er na ddaethant i'r brig eleni bu digon o hwyl. Cangen Caernarfon oedd yr enillwyr yn Rhanbarth Arfon a da oedd deall mai hwy hefyd oedd yr enillwyr Cenedlaethol. Ardderchog genod Caernarfon.

Diolchwyd i'r merched fu'n cysylltu gyda'r Brifysgol mewn paratodau at y cinio Dolig.

Bydd y gangen yn cael seibiant tan fis Chwefror pan ddaw Megan Tomos, Llanllechid i siarad ar y testun 'Gwreiddiau a Llyfrau', Nos Lun Chwefror 4. Croeso i unrhyw un hoffai ymuno gyda'r gangen !

Capel Shiloh, Tregarth

Mae ein blaenor hynaf, Mrs Edith Hughes, Erw Faen, yng Nghartref Ceris, yn Treborth, Bangor, ac anfonwn ein cofion cynnhesaf ati.

Oedfaon Shiloh

Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol
Rhagfyr 16: Dafydd Hughes, Caernarfon
Rhagfyr 23: Oedfa Deulu y Nadolig am 4 o'r gloch
Rhagfyr 24: Gwasanaeth Cymun Noswyl y Nadolig am 6 o'r gloch
Rhagfyr 30: Gwyndaf Jones, Bangor
Ionawr 6: Richard Gillion
Ionawr 13: Gwynfor Williams, Caernarfon
Ionawr 20: Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Drws Agored

Gair i'ch atgoffa fod Capel Shiloh ar agor i unrhyw un hoffai ddod draw am gwmni, sgwrs a phaned bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch.

Difrod

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu peth difrod o fewn y capel pan ddaeth rhan fechan o nenfwd o dan y galeri i lawr. Mae bellach yn y broses o gael ei drwsio a'n gobaith yw y cawn ddychwelyd y gwasanaethau i'r capel yn fuan.

Eglwys Y Santes Fair

Gwasanaethau
Rhagfyr 16: 9:30y.b – Boreuol Weddi
Rhagfyr 23: 9:30y.b – Gwasanaeth Carolau
Rhagfyr 24: 4y.p – Gwasanaeth y Preseb.
Rhagfyr 25: 9y.b. – Cymun Nadolig.
Rhagfyr 30: Dim gwasanaeth – ymuno a St Cross am 11y.b.
Ionawr 6: 9:30 – Boreuol Weddi
Ionawr 13: 9:30 – Cymun Bendigaidd

Croeso i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau carolau a'r nadolig. Wedi dathliadau'r nadolig a'r flwyddyn newydd bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar bnawn Mawrth, Ionawr 22ain am 2y.p.

Llongyfarchiadau calonog i Hazel Hughes, 4 Craig Pandy, am dderbyn gwobr gan y Post Brenhinol – "Inspirational Colleague Award" am ei gwaith fel Rheolwraig yn yr adran ddosbarthu yn swyddfa'r post ym Mangor. Dywed Hazel nad oedd wedi disgwyl hyn gan fod cymaint o ymgeiswyr cryf drwy Brydain. Ei chynghor hi yw i unrhyw un drin cydweithwyr fel y hoffech chi gael eich trin gan greu awyrgylch braf a hapus.

Daw'r cyfarchion hyn gan Louie Hughes, Tal y Bont, Mam yng Nghyfraith Hazel.

Diolch

Hoffai Anne Hughes, Caryn a Donna , 13 Ffordd Tanrhiw ddiolch o galon i bawb a fu mor gefnogol tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli Tudur ddiwedd Awst. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd i Sefydliad Parkinson-cyfanswm o £610.Bu eich cydymdeimlad a'ch geiriau caredig yn gymorth mawr iddynt. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Clwb Cant Canolfan Tregarth

Tachwedd
15 Buckley Wyn £15
6 David Hadfield £10
21 Ann Davies £5

Rhagfyr

26 Edward Jones £15
20 Pauline Jones £10
2 Owenna Hughes £5

Bonus Ball Nadolig—Peter Roberts

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Cydymdeimlwn yn ddwys a theulu Mrs Dolores Edwards , 5 Gernant, a fu farw'n dawel yn eu chartref ar ol salwch hir a blin.Bu Esther ei merch yn gofalu'n dyner amdani hyd y diwedd.Roed Mrs Edwards yn enedigol o'r Iwernddon cyn priodi a George ei gwr a setlo yma.Rydym yn meddwl amdanoch Esther , y wyrion a'r teulu estynedig ar adeg eich colled fawr.

Gobeithio bod Carol a Nicky wedi gwella o'r anwyd trwm . Anfonwn ein cofion atoch ac at bawb arall sydd ddim y dda.

Yn dilyn damwain ar Ragfyr 4ydd fe gaewyd ffordd yr A5 rhyw filltir i fyny'r lon o Bont-y Twr.Cyrchwyd tri o bobl i'r ystyby.

Dymuniadau gorau am Nadolig dedwydd i bawb.



Ysgol Pen-y-bryn

Cwmni'r Frân Wen

Daeth Cwmni'r Frân Wen i berfformio Twrw Dan a Dicw i flwyddyn 3. Roedd y perfformiad am ddau blentyn gwahanol iawn yn dod ynghyd ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Fe wnaeth bawb fwynhau y perfformiad a gwnaeth i ni feddwl am sut i ddangos parch tuag at bobl o wahanol gefndiroedd.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Cawsom ddiwrnod gwahanol iawn i'r arfer gan fod pawb wedi dod i'r ysgol yn eu pyjamas a chyfrannu arian at yr elusen. Hefyd gwnaethom gadwyn Pawen Llawen i gyfrannu at ymgyrch Aled Hughes ar Radio Cymru. Roeddem yn hynod falch o glywed bod ysgolion Cymru wedi cyrraedd y targed.

Ffair Nadolig Mentergarwch

Cyfrannodd bob dosbarth at Ffair Nadolig lwyddiannus trwy baratoi a gwerthu danteithion Nadolig blasus a chynllunio gemau Nadoligaidd i'w chwarae yn ystod y prynhawn. Buom yn brysur yn cyfrifo costau cynhyrchu er mwyn prisiu'r nwyddau a sicrhau ein bod yn gwneud elw.

Ymweliad Blwyddyn 6

Cafodd dosbarth Elidir brofiad anhygoel bore Mawrth, Tachwedd 13 fed pan gawsom y cyfle i ymweld a bwyty Eidalaidd Torna a Surriento ym Mangor.



Ymweld â Fferm Hendŷ

Aeth blwyddyn 3 a 4 i fferm Hendŷ ger Caernarfon i ddysgu am odro gwartheg. Roedd yn ddiddorol iawn gweld y datblygiadau ers godro gyda llaw a oedd yn digwydd yn y gorffennol i'r parlwr godro llawn technoleg fodern oedd ar y fferm heddiw. Diolch i Mr Aled Jones am rannu gymaint o wybodaeth am ei fferm gyda ni.

Wrth gwrs, mae gan ein dosbarth gysylltiad agos gyda'r Eidal, gan fod tad Sienna yn hannu o Castellammare. Cawsom groeso hynod o gynnes gan y perchnogion, Chiara ac Umberto a dysgom sut i wneud pitsas hynod o flasus. Diolch o galon i Giuseppe am ddangos i ni sut i greu pitsas anfarwol! Dyma ddechrau gwych i'n uned Dyniaethau am 'Yr Eidal'. Hoffem ddiolch i Fran am ei chwmni yn ystod yr ymweliad, ac am ddangos ei sgiliau Eidaleg anhygoel!

Mwy o'r Eidal

Braf oedd cael croesawu Fran a'i gŵr

Enrico i roi cyflwyniad I flwyddyn am yr Eidal. Dysgom lawer am draddodiadau'r Nadolig, yn ogystal a'r math o fwydydd mae'r Eidalywyr yn fwynhau dros yr Wyl. Uchafbwynt y prynhawn oedd cael blasu cacen felys draddodiadol, sydd yn ffefryn yng nghartref teulu Sienna. Diolch yn fawr i'r ddau am roi eu hamser prin i ddod atom; cawsom wledd a hanner ymhob ystyr y gair!

Ymweliad PC Owain

Cafodd bob dosbarth gyflwyniadau gyda negeseuon hynod o bwysig gan PC Owain, o ymddygaidd gwrth-gymdeithasol i gyffuriau anghyfriethlon. Diolch yn fawr am drosglwyddo'r negeseuon mor effeithiol.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod eto eleni, yn enwedig i'r rhai a ddaeth yn fuddugol ar y llwyfan, yn ogystal a chystadlaethau gwaith cartref. Rydym yn hynod falch o'ch llwyddiant.



CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909



Ysgol Tregarth

Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Cafodd criw o ferched lwcus iawn y cyfle i berfformio y ddawns flodau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni fel rhan o seremoni'r cadeirio. Hoffem ddiolch o galon i Mrs Meriel Parry am ein cynorthwyo gyda'r hyfforddi a'r gwisgoedd, ac i Mrs Cheryl Griffiths am baratoi tusw o flodau bendigedig i bob un o'r merched. Cafodd bob un fodd i fyw ac wedi llwyr fwynhau y profiad.

Hefyd, cafwydd cryn lwyddiant yn yr adran gelf. Llwyddodd disgyblion bl 5 a 6 i gipio y gwobrau cyntaf, ail a thrydydd yn y gystadleuaeth arlunio. Aeth y gwobrau i Posy Prendergast, Penny Marshal a Ffion Macdonald Jones. Yn ychwanegol, llwyddodd Millie Forte i gipio'r wobr gyntaf, a'r drydydd wobr yn y gwaith Celf unigol. Llongyfarchiadau mawr.



Plant mewn angen
Casglwyd £288 i achos 'Plant Mewn Angen' wrth i'r disgyblion dalu £1 i wisgo'u dillad eu hunain a chymryd rhan yng nghystadleuaeth gwallt gwirion - da iawn chi blant! Bu llawer o rieni a phlant yr ysgol yn brysur yn coginio cacennau Pydsi at y diwrnod, diolch yn fawr iawn i bawb am gyfrannu a chymryd rhan.

Sioe Twrw Dan a Dicw
Yn ddiweddar cafodd disgyblion



y CS brofiad gwyh yn gwylio sioe gan gwmni 'Fran Wen'. Fe gafwyd y plant gyfarfod dau gymeriad yn y sioe sef Dan a Dicw - dau berson o fydoedd hollol wahanol i'w gilydd. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael cymryd rhan yn y sioe gyffrous yma. Pawb wedi mwynhau!

Ymweliad Capel y Ffynnon
Cafodd ddisgyblion blwyddyn 2 ymweld â Chapel y Ffynnon ym Mangor yn ddiweddar. Yno cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau Nadoligaidd gan ddysgu am stori'r geni, a chymryd rhan mewn drama a gwisgo gwisgoedd bendigedig. Roeddynt wrth eu boddau yn cael gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Diolch yn fawr iawn i bawb yng Nghael y Ffynnon am ein croesawu.

Gala Nofio
Ar ddydd Sadwrn 17eg cynhaliwyd gala nofio'r urdd ym mhwl nofio Bangor. Llongyfarchiadau i blant cyfnod allweddol dau, ysgol Tregarth, am gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Bu pedair o ferched blwyddyn 6 yn llwyddiannus iawn yn y gala. Cafodd y tîm ras gyfnewid gymysg a oedd yn cynnwys Millie Forte, Ffion Marlow, Shannon O'Malley a Nel Owen 1af yn y rownd derfynol sy'n golygu eu byddant yn mynd ymlaen i'r gala genedlaethol

draw yng Nghaerdydd. Yn ogystal, cafodd Nel Owen 1af yn y rownd derfynol, dull pili pala a broga, Shannon ail yn y dull cefn a Millie 3ydd yn y dull pili pala. Pob lwc i'r pedair lawr yng Nghaerdydd mis Ionawr.

Gymnasteg
Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae plant Ysgol Tregarth wedi

bod yn brysur yn ymarfer tuag at gystadleuaeth gymnasteg draw yng nghanolfan tennis, Caernarfon. Aeth 17 o blant CA2 i'r clwb gymnasteg ar ôl ysgol ar brynhawn dydd Gwener. Llongyfarchiadau i'r tri tîm a chymerodd rhan yn y gystadleuaeth, pob un wedi cofio eu dilyniannau yn wych ac wedi bod yn brofiad arbennig i'r plant.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar dechrau mis Rhagfyr aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon i drafod materion mewnol y blaid a'r Yemen e.e. hanes ffurfio'r wlad y ganrif ddiwethaf a'r argyfwng sydd yno ar hyn o bryd.
Yna, tua canol y mis, rhoddwyd torch y gangen ar gofeb Bethesda ar Ddydd Sul y Cofio.
Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen yn ystafell gymunedol y llyfrgell (oherwydd tân yng Nghefnfaes) i wrando ar yr adroddiau arferol (e.e. Mae Cymru'n wir elwa o £200 miliwn o Ewrop yn flynyddol, mae nyrsys yn cael codiad cyflog o 6.5% dros tair blynedd gan Lywodraeth Cymru a bod Cyngor Gwynedd yn ail gylchu canran is na chynghorau eraill Gogledd Cymru), i anfon cynnig i Blaid Lafur Arfon ac i lenwi holiadur cludiant Partneriaeth Ogwen.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY





Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2019
Ionawr
26 Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracy Smith.

Chwefror
02 Cefnfaes - Gofalwyr Gwynedd a Môn

Mawrth
02 Cefnfaes – Plaid Cymru
09 Cefnfaes – Plaid Lafur
16 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen
23 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
06 Cefnfaes – Neuadd Talgai

Ebrill
13 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
27 Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem

Mai
11 Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
18 Cefnfaes – Gorffwysfan

Mehefin
15 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
22 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
29 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Medi
28 Cefnfaes – Plaid Cymru.

Hydref
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Tachwedd
23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
IONAWR 8, 22 A 29
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN
Nos Lun, 14 Ionawr
am 7.00yh
yn Festri Capel Jerusalem
David Elis-Williams
"Dilyn yr A5 – ond ble 'roedd y ffordd cyn Telford?"
£1.50 wrth hy drws neu am ddim i aelodau

Carmel Llanllechid

Te Bach
yn y festri
Pnawn Llun, 28 Ionawr
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

Eglwys St. Tegai, Llandygai
Cymun Noswyl
Nadolig
24 Rhagfyr
Am 11.15 yr hwyr

Marchnad Ogwen

Ionawr 12fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Chwefror 9fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Mawrth 9fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Bwydydd, Creffttau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

Cymdeithas Jerusalem
Nos Iau, 10 Ionawr
am 7.00yh
yn Festri Jerusalem
Noson yng nghwmni
Angharad Tomos

Meddygfa Bethesda
ATGOFION AR GÂN
Sesiynau cerddorol i bobl dros 50 oed
Dydd Gwener, 18 Ionawr
Dydd Gwener, 01 a 15 Chwefror
1.15 – 2.30
Paned a chân yn ddi-dâl
(Canolfan Gerdd William Mathias)

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CRONFA GOFFA TRACY SMITH
SADWRN, 26 IONAWR
10.00 – 12.00

Gwasanaeth Naw Llith a Charol St. Tegai, Llandygai
Gwasanaeth Traddodiadol
Dwyieithog
Dan olau kannwyll
Dydd Sul, 23 Rhagfyr
am 5 o'r gloch
Lluniaeth ysgafn i ddilyn



Cyfarfod Blynyddol
Eisteddfod Gadeiriol
Dyffryn Ogwen

Festri Jerusalem
23 Ionawr am 7.30yh

Ar Werth

Bwrdd Snwcer/Billiards

Llawn Maint

(Hen fwrdd Neuadd Bentref Rhiwlas)

Pris i'w drafod

Cysylltwch gyda Cynrig

01248 601318

NEUADD OGWEN

Gig Nadolig
CELT,
MAFFIA MR HUWS,
DAFYDD HEDD



Neuadd Ogwen,
Dydd Iau, 27 Rhagfyr, 7:30yh

Premiere DEIAN A LOLI
12.30yp a 3.30yp



Neuadd Ogwen,
Dydd Mercher, 02 Ionawr

gair neu ddau

John Pritchard

Defodau'r Wyl

Fydd ein Nadolig ddim 'run fath eleni. Fedr o ddim bod. Yn ein tŷ ni, fel eich tŷ chi o bosibl, fe drodd y paratodau ar gyfer yr Wyl dros y blynyddoedd yn ddefodau bychain. Un o'r defodau hynny yw addurno'r tŷ: prynu'r goeden a'i gosod yng nghornel y stafell fyw; estyn y bocsys addurniadau o'r atig; dadbacio'r cyfan; addurno'r goeden; gosod yr holl bethau cyfarwydd yn eu lle arferol o amgylch y tŷ. A heb i neb ddyfarnu mai felly y dylai fod, y mae i bawb ei ran arbennig ei hun yn y ddefod hon. Mae'r un peth yn wir am y defodau eraill. Un o'm cyfrifoldebau i ar hyd y blynyddoedd fu danfon anrhegion a chardiau i'r teulu noswyl Nadolig. Wn i ddim a fyddaf yn gwneud hynny eleni ai peidio. Wn i ddim pwy fydd yn gwneud rhai o'r pethau cyfarwydd. Wn i ddim beth ddaw o ambell ddefod hyd yn oed. Oherwydd mi fydd yn Nadolig gwahanol, ac yn Nadolig nad oeddwn mo'i eisiau.

Ac eto, trwy'r cwbl ac er gwaetha'r cwbl, mi wn mai'r un fydd yr Wyl eleni eto am y byddwn yn dathlu dyfodiad Duw i'n byd yn y bachgen bach a aned ym Methlehem. Mi gawn ryfeddu o'r newydd at y ffaith fod Duw ei hun wedi dod yn ddyn. Mi gawn brofi'r llawenydd o wybod fod Iesu wedi dod i wared ei bobl oddi wrth eu pechodau, a hynny'n golygu fod ein pechodau ninnau wedi eu maddau. Ac mi gawn y cysur bendigedig o ddeall mai'r un y dathlwn ei eni yw

Immanuel, 'hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni" (Mathew 1:23).

Ie, un o negeseuon mwyaf gwerthfawr Gŵyl y Geni yw bod Duw gyda ni. Fe ddaeth Duw yn llythrennol at bobl yn y dyn Iesu. Roedd Duw gyda Mair a Joseff yn yr hogyn yr oeddent yn ei fagu; roedd Duw gyda phobl Nasareth yn y plentyn a'r dyn ifanc a oedd yn byw yn eu plith; roedd Duw gyda'r disgyblion a alwodd Iesu wedi iddo ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus; roedd Duw efo'r holl bobl y cyfarfu Iesu â hwy, hyd yn oed y bobl a oedd yn ei wrthwynebu; roedd Duw gyda'r lleidr edifeiriol ar y groes cyn iddo fo a Iesu farw ar Galfaria; roedd Duw gyda'r holl bobl a welodd Iesu wedi iddo ddod yn ôl yn fyw. Yn llythrennol felly, roedd Duw gyda hwy.

Ond nid dyna'r diwedd. Oherwydd yr un yw Iesu'r Nadolig hwn eto. Immanuel ydyw o hyd. Mae'n parhau gyda ni. Mae gyda ni yn ein hofnau a'n gofidiau yn ogystal ag yn ein llawenydd a'n gobeithion. Mae gyda ni i'n cysuro a'n nerthu a'n llenwi â phob gobaith. Mae gyda ni i estyn ei faddeuant. Mae gyda ni yng nghanol pob dioddefaint a phoen. Mae gyda ni yn wyneb y gelyn angau hyd yn oed. Ac y mae gyda ni hefyd, diolch am hynny, ym mhob galar a hiraeth.

Boed i Iesu'r Immanuel fod yn llawenydd a hyfrydwch i bawb ohonoch dros yr Wyl.

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB.
☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Biniau Halen

Penderfynodd Cyngor Gwynedd beidio llenwi biniau halen sydd i'w gweld ar ochr ffyrdd gwledig ond i ganolbwyntio ar raeanu ffyrdd mewn ardaloedd mwy poblog. Yn anffodus mae hyn yn enghraifft arall o Gyngor Gwynedd yn anwybyddu anghenion trigolion gwledig sydd yn dioddef hefyd o wasanaeth eilradd ran wynebu ffyrdd, torri gordyfiant, ailgylchu a chlirio cwteri.



Yn ffodus mae Cynghorwyr Cyngor Cymuned Pentir wedi camu i'r bwch ac wedi ymrwmo'r Cyngor Cymuned i dalu am lenwi'r biniau halen dros y gaeaf. Mae hyn yn golygu bydd unigolion yr ardal sydd yn gweithio i Gyngor Gwynedd yn gallu cyrraedd eu gwaith yn ddiogel!



Pwy Sy'n Cofio Ddoe? © Dr J. Elwyn Hughes

Y gŵr o Rachub a'r Ffliw Pandemig (2)

Fel rhan o'i ymchwil i hanes y ffliw, bu Adrian (Williams) yn siarad efo nifer o deuluoedd a haerau fod ymgymerydd yn argymhell iddynt beidio â chau beddau gan y câi eraill eu claddu yno ymhen ychydig

ddyddiau. Stori drist arall oedd clywed am weinidog yn priodi dau ar ddydd Sadwrn a chlywed y Llun canlynol fod y wraig wedi marw o'r ffliw ac yntau wedyn yn cael y dasg anodd o'i chladdu. Dyna pa mor gyflym yr hawliai'r ffliw y dioddefwyr.

eu tad fynd efo fo ar y trên i Lerpwl a bod eu tad wedi crio yr holl ffordd yno. A pha ryfedd hynny, plentyn bach tair oed yn mynd ar drên i wlad ddieithr, i dref oedd lawer mwy na Chaergybi, lle'r oedd pawb yn siarad iaith hollol estron iddo.

Coctels ar gyfer y Nadolig

Cuba Libre
80ml o cola, 50ml o rym, 25ml o sudd leim, digon o rew wedi'i dorri'n fân.

Margarita
60ml o sudd leim, 60ml o tequila, 30ml o *triple sec*.
Gwlychu top y gwydryn efo sleisen o leim. Rhoi halen ar blât, a rhoi'r gwydryn ar yr halen. Oerwch y gwydryn yn yr oergell tro bo chi'n cymysgu'r coctel.

Mint Julep
300ml o ddŵr, 6 deilen fintys, 1 llwy de o siwgr coch, 60ml o bourbon, a rhew.

Sea Breeze
50ml o sudd grawnffrwyth, 120ml o sudd llugaeron, 40ml o fodca, rhew a sleisen o leim.

Pina Colada
70ml o sudd pîn-afal, 30ml o rym gwyn, 40ml o hufen cneuen goco, a darn bach o bin-afal.

Defnyddiwch jar fel 'kilner' os nad oes gennych gymysgwr coctels.
Gofalwch bod y caead yn dynn!

Nadolig Llawen,
Pat

* * *

Chwalu'r teulu

O gofio i dad Adrian a'r tri phlentyn arall gael eu gadael yn amddifad (wedi i'r ffliw, penbleth gweddill teulu oedd sut i edrych ar eu holau. Am gyfnod cartrefwyd hwy yn Ysgol Trearddur (lle buasai eu tad yn gweithio fel garddwr); yna, aeth gwahanol aelodau o'r teulu ati i ddod o hyd i gartrefi newydd iddyn nhw. Oherwydd y perygl i'r haint ymledu, dinistriwyd holl ddillad y plant ond bu perchnogion Ysgol Trearddur mor garedig â thalu am eu hailddilladu.

Tad Adrian, Cyril Williams, ydi'r bachgen bach ar y chwith, ei frawd, Dic, ar y dde, William, ei frawd arall sydd yn y cefn gyda'i chwaer, Neli

Cafodd chwaer a dau frawd ei dad eu rhoi yng ngofal rhai o'i teulu yng Nghaergybi ond gan mai ef oedd yr ieuengaf (yn dair oed), cafodd ei dad, ei anfon i fyw at fodryb iddo yn Anfield, Lerpwl. Roedd Sheelagh, chwaer Adrian, yn cofio clywed i frawd

Tad Adrian yn Lerpwl

Yn ffodus, roedd ei fodryb, Anti Mary, yn siarad Cymraeg a chymerir ei fod wedi setlo, yn Stryd Hershell i ddechrau ac yna yn Walton Breck Road (oedd yn agos iawn at faes pêl-droed Anfield). Diolch i'w fodryb, fe gadwodd ei Gymraeg yn ystod y blynyddoedd y bu yn Lerpwl.

Ac ni synnir iddo fod yn gefnogwr brwd o dîm pêl-droed Lerpwl ond, yn rhyfedd iawn, roedd yn un o'r ychydig rai a fyddai, pan nad oedd Lerpwl yn chwarae gartra, yn mynd i wyllo Everton – dirgelwch i Adrian!

Aeth i Ysgol Collegiate Lerpwl ond, gwaetha'r modd, bu farw ei Fodryb Mary pan nad oedd o ond yn 13 oed. Arhosodd yn Lerpwl am ddwy flynedd arall cyn dychwelyd i Gaergybi i ymuno â'i frodyr a'i chwaer.

Does dim amheuaeth na chawsai'r colledion a'r chwalu yn hanes ei dad effaith arno trwy gydol ei oes a dyna pam y teimla Adrian yn falch, ryw gan mlynedd yn diweddarach, iddo fod â rhan fach i greu ymwybyddiaeth am feirws a effeithiodd nid yn unig ar deulu'i dad ond ar nifer o deuluoedd yn Nyffryn Ogwen hefyd.

Mae Adrian yn cydnabod ei ddyled i'r Athro John Oxford o Goleg Queen Mary, Prifysgol Llundain, arbenigwr mewn firoleg a wnaeth waith diflino yn y maes hwnnw, ac i Radio Wales am ddangos diddordeb yn y pwnc ac am roi iddo'r cyfle i ddweud y stori.

Ôl Nodiad:

Bydd nifer o drigolion Maes Bleddyn, Rachub, a'r cyffiniau, yn siŵr o gofio tad Adrian, sef Cyril Williams. Yn ei ddyddiau cynnar, roedd yn byw yng nghyffiniau Dinbych ac yn gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd. Dyna pryd y cyfarfu ag Evelyn a phriodwyd y ddau maes o law. Gwasanaethodd yn yr Awyrlu yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yna bu'n Was Sifil, gan ddringo maes i law i fod yn Arolygydd Treth Incwm. Ymddiddorai mewn chwaraeon a bu'n ddyfarnwr mewn gêm bêl-droed ryngwladol ym 1953, yn ddyfarnwr gemau criced ac yn Ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor.



Merched y ddawns flodau o Ysgol Tregarth.

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2018



Y cystadleuwyr ieuengaf yn barod i gychwyn yr eisteddfod fore Sadwrn.



Llefaru Meithrin: Erin Môn, Ysgol Llanllechid - 1af (ar y dde), gyda Cêt Ogwen, Ysgol Abercaseg - 2il; a Mali Non, Ysgol Abercaseg - 3ydd.



Unawd Meithrin: (o'r chwith) Celt Madog, Ysgol Llanllechid -2il; Gruff Rhys, Ysgol Llanllechid - 1af; gyda Cêt Ogwen a Mali Non, Ysgol Abercaseg yn gydradd 3ydd.



Llefaru derbyn: (o'r chwith) Elsi mererid Allsup - 2il; Alfie Muldoon - 3ydd; Eban Roberts - 1af. (Y tri o Ysgol Llanllechid.)



Grŵp Dawnsio Disco Bl 6 ac iau; Grŵp Ffion, Ysgol Llanllechid - 1af.



Unawd Bl. 1: (o'r chwith) Efan James, Ysgol Llanllechid - 2il; Lili Mair Williams, Ysgol Llanllechid - 1af; Catrin Haf, Ysgol Llanllechid - 3ydd.



Grŵp Offerynnol Bl. 6 ac iau: Seren ac Erin, Ysgol Llanllechid - 2il.



Grŵp Offerynnol Bl. 6 ac iau: Grŵp Griff, Ysgol Llanllechid - 1af.



Gwenno Beech,
Ysgol Llanllechid
- buddugol ar yr
Unawd Cerdd
Dant ac Alaw
Werin.



Unawd bl. 3 a 4: Gwenno Beech, Ysgol Llanllechid (ar y dde) - 1af; gyda Gruff Beech, Ysgol Llanllechid - 2il; ac Angharad Ball, Ysgol Llanllechid a Betsi Lŵ, Ysgol Pen y Bryn yn gydradd 3ydd.



Parti Llefaru Ysgol Gynradd: Parti Bl. 5 a 6 Ysgol Llanllechid - 1af.



Llefaru Bl. 2: Catrin Morris, Ysgol Llanllechid (ar y dde) - 1af; gyda Medi Haf, Ysgol Llanllechid - 2il, ac Elen Dafydd, Ysgol Llanllechid - 3ydd.



Parti Llefaru Ysgol Gynradd: Parti bl. 6 Ysgol Pen y Bryn - 2il.



Côr Bl. 6 ac iau: Côr Ysgol Pen y Bryn - 2il.



Parti Unsain Bl. 6 ac iau: Buddugol - Parti Bl. 4 a 5 Ysgol Llanllechid.



Parti Unsain Bl. 6 ac iau: Parti Bl. 5 Ysgol Pen y Bryn - 2il.



Unawd bl. 5 a 6: Mia Williams, Ysgol Llanllechid - 1af; Chenai Chikanza a Mari Roberts, Ysgol Llanllechid - cydradd 2il; Dwynwen Meleri Pritchard ac Eli Roberts, Ysgol Pen y Bryn - cydradd 3ydd.



Dau gynrychiolydd o Gôr Buddugol Ysgol Llanllechid yn codi'r cwpan.



Unawd Offerynnol Bl. 6 ac iau: Elliw Davies, Ysgol Llanllechid - 2il.



Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru:
Chenai Chikanza, Ysgol Llanllechid.



Enillydd y Gadair a'r Fedal Ryddiaith - Dafydd
Guto Ifan, Llanrug, gyda Hannh Morgan,
Ysgol Dyffryn Ogwen, enillydd Medal yr Ifanc.



Côr Bl. 6 ac iau: Ysgol Llanllechid - 1af.

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR

Llun - wedi cau

Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com

01248 600219



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffï neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

**SIOP
OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T
a Hwdis Cowbois, Creffttau, DVDs,
Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl
anghenion siopa! Galwch draw neu
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i
Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485



Caerhun a Glasinfryn

Cylch Glasinfryn

Newyddion trist a ddaeth i'r Cylch nos Fercher 14 Tachwedd, o golli aelod annwyl iawn o'n plith sef Mrs Muriel Pritchard a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ychydig ddyddiau ynghynt. Ni fu Mrs Pritchard yn dda ei hiechyd yn ddiweddar ond 'roedd ei hysbryd a'i diddordeb mewn bywyd yn hynod.

Cawsom funud o dawelwch i gofio amdani ac i atgoffa ein hunain am ei chyfeillgarwch, ei charedigrwydd, ei hiwmor a'i meddwl chwim.

Anfonwn pob cydymdeimlad i Mair a'r teulu i gyd. Gresyn na chafodd gyrraedd penblwydd sbesial yn 100oed ym mis Ionawr.

Dr Paul Smith oedd y gŵr gwadd. 'Roedd wedi treulio sawl blwyddyn yn Ethiopia ac Eretrea yn gweithio ar brosiectau ynglŷn ac amaethyddiaeth a pherianeg. 'Roedd yn amlwg o'i sgwrs ei fod wedi gweithio mewn sawl rhan o'r gwledydd oherwydd ei wybodaeth eang a'r ffeithiau hanesyddol a gawsom o'r gwledydd enfawr yma.

Diolchwyd iddo gan Marian a mwynhawyd paned wedi ei pharatoi gan Elizabeth a Carole.

Byddwn yn cyfarfod mis nesaf yn Tavern on the Bay yn Nhraeth Coch i gael cinio Nadolig, edrychwn ymlaen i'r dathlu !

Mrs Annie Muriel Pritchard

Ganwyd Mrs Pritchard ar 22 Ionawr, 1919 yn Stryd Fawr, Rhiwlas, y pedwerydd o saith o blant i Richard ac Ellen Williams. Pan yn ddyffwydd oed fe symudodd y teulu i Ben Cefn, lle oedd ei thad yn gweithio yn Fferm Niwbwrch ac yn dod adra gyda deg swllt yr wythnos i gynnal ei deulu !. Mynychodd Ysgol Rhiwlas a chyflanwodd y gamp o fod y ferch gyntaf yn Sir Gaernarfon i gael 100% yn yr "11+" a chafodd yr ysgol wyliau am y diwrnod i ddathlu. Aeth i'r Cownti Sgwyl ym Methesda, ond bu raid iddi ymadael yn bymtheg oed i wneud lle i un o'i brodydd ac felly fe aeth i weithio i Lodge Pentir i edrych ar ôl mab Mrs Rees. Cafodd waith wedi hynny yn Woolworths ym Mangor nes i'r Ail Ryfel Byd dorri allan, ac yna yn 1940 fe ymunodd a'r WAAF. Pasiodd ei phrawf gyrru ar lori 3tunell ym Mhwillheli ac yna gweithio i'r Llu Awyr yn Stafford, bu'n teithio dros y wlad yn danfon bob math o ddarnau angenrheidiol i awyrenau yn ystod yr amser yma. Ac er nad oedd hyn yn swyddogol nac yn gyfreithlon byddai wrth ei bodd yn cael ei anfon i feysydd awyr Gogledd Cymru er mwyn cael mynd a'i mam o Ben Cefn am dro efo hi yn y lori ! Cafodd ei dyrchafu yn Gorpral ac wedyn

'roedd yn mynd a swyddogion y llu awyr o gwmpas y wlad. Ar ôl y rhyfel priododd â Victor Pritchard, yntau wedi bod yn y Fyddin, ac yn 1947 cawsant denantiaeth Fferm Glasinfryn, lle bu y ddau yn ffermio am bedwar deg o flynyddoedd. Bu Mrs Pritchard yn weithgar iawn gyda sawl mudiad yn ei bro a thu hwnt, gan fod yn Ysgrifennydd i'r Soroptomistiaid Bangor am nifer o flynyddoedd. Bu'n weithgar iawn gyda Chyfeillion Ysbyty Gwynedd a bu'n Llywydd am beth amser. Gweithiodd yn ddiwyd fel Trysorydd Sioe Glasinfryn ac 'roedd yn sylfaenydd Sefydliad y Merched yng Nglasinfryn. Hefyd gwnaeth gyfraniad mawr ym mywyd yr Eglwys Gadeiriol Bangor fel aelod o'r gynulleidfa Gymraeg, yr Urdd Flodau, Undeb y Mamau a sawl gweithgaredd arall. Yn y flwyddyn 2000 cafodd yr MBE gan y Frenhines am ei gwaith cymdeithasol.

Yr oedd wedi cyflawni llawer yn ei bywyd, yn groesawus a chymwynasgar, yn berson crefftus a thalentog a rannodd ei gwybodaeth ag eraill. Bydd colled fawr i'w theulu a'r ardal ar ei hol.

Diolch

Dymuna Mair a James, Jane ac Idris ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ac i'r teulu yn dilyn marwolaeth mam, nain a hen nain, Mrs Annie Muriel Pritchard, Tegfan, Waen Wen ar 12 Tachwedd yn Ysbyty Gwynedd yn 99oed. Bydd yr arian a gasglwyd er cof am Mrs Pritchard yn cael ei rannu rhwng Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Chyfeillion Ysbyty Gwynedd. Hoffai Mair a Jane ddiolch o galon i bawb am eu ymweliadau a'u mham yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf pan yr oedd wedi colli ei golwg, byddai bob amser wrth ei bodd yn cael sgwrs a hwythau efo hithau !

Canolfan Glasinfryn

Mae'r Ganolfan yn bictiwr, wedi cael ei phaentio dros yr wythnosau diwethaf ac yn edrych yn arbennig !. Buasai'n braf gweld mwy o ddefnydd ar y Ganolfan yn ystod y dydd, os ydych a diddordeb mewn llogi at unrhyw achlysur cysylltwch â Mair Griffiths 352966.

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100, Mis Tachwedd
1af Rhif 8 Mr. J C Rees, Pentir
2ail Rhif 31 Alys Jones, Bethel
3ydd Rhif 20 Roger Butler, Abertawe

Dathliad or Nadolig

Nos Sul Rhagfyr 23 am 6yh bydd noson i ddathlu gwyl y nadolig, ceir ddatganiadau cerddorol ar yr organ ar clarinet, unawadau a deuawdau a datganiadau llafar, a charolau

cynulleidfaol. Budd lluniaeth ysgafn o mince pies a mulled wine. Dewch i cud-ganu a ni, croeso cynnes i bawb

Bingo

Nos Wener 16 Tachwedd cynhaliwyd Noson o Fingo yn y Ganolfan Glasinfryn, cafwyd noson hwyliog a llwyddianus, hoffon ddiolch i drigolion Glasinfryn a Chaurhun am ei cefnogaeth.

Ffair Nadolig

Prynhawn Sadwrn 24 Tachwedd cynhaliwyd ein ffair Nadolig yn y ganolfan Glasinfryn, roedd yn brynhawn hwyliog a hynod o lwyddianus. Diolch i bawb am eich cefnogaeth

Cyfarchion

Hoffa aelodau'r Eglwys anfon cyfarchion y tymor i'r canlynol, Miss. Margaret Griffith, Caerhun, Mr. Bill Perry, Bryn Seiont Newydd, Caernarfon, Mrs. Mai Williams, Cerrig yr Afon, Y Felinheli, Mr. Vic Bradley, Glan Menai, Treborth a Mrs Beryl Griffith, Plas Garnedd, Llanberis.

Cyfarchion yr Wyl

Hoffa aelodau a chyfeillion Eglwys St. Cedol ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Dyffryn Ogwen, a hoffwn Diolch i chwi am eich cefnogaeth drwy gydol 2018. Diolch yn fawr iawn.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni:

- 23.12.18 Boreuol Weddi
- 23.12.18 6yh. Dathliad o'r Nadolig
- 24.12.18 9.30yh. Cymun Bendigaidd
- 25.12.18 ymuno a Tregarth 9.30yb, Talybont 10.30yb neu Glan Ogwen 10yb
- 30.12.18 Gwasanaeth ar y cud - St. Cedol, Pentir 9.30yb neu St. Cross, Talybont 11am
- 6.1.19 Boreuol Weddi
- 13.1.19 Cymun Bendigaidd
- 20.1.19 Cymun Bendigaidd
- 27.1.19 Boreuol Weddi

Carneddi

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â pherthnasau a chyfeillion Neville Jones, 42 Ffordd Carneddi a fu farw'n ddiweddar. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa ym Mangor ar 21 Tachwedd o dan ofal y Canon Idris Thomas.



Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Dymuna Mrs Glenys Jones, Adwy’r Nant, a’r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli eu hannwyl fab, David Gareth.

Diolch i bawb a gymroedd ran yn yr Amlosgfa ac am eu geiriau caredig a fu’n gysur mawr iddynt fel teulu. Diolch hefyd am yr rhoddion hael a dderbynwyd i’w rhannu rhwng Ymchwil Cancer a Sefydliad Prydeinig y Galon.

Diolch i Mrs Glenys Jones am ei rhodd i Lais Ogwan er cof am ei merch, Rhian Mair, a’i mab, David Griffith.

Ni fydd Mrs Glenys Jones, Adwy’r Nant, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond mae’n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i’w chymdogion a’i ffrindiau i gyd.

Ni fydd Joe Evans, Glanffrydlas, yn gyrru cardiau Nadolig eleni ond mae’n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i’w deulu a’i gyfeillion.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, 5, Garneddwen ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Enillodd Cian yr unawd lleisiol sef, cyflwyniad hyd at wyth munud oedd yn gyfuniad o gân werin ac unawd cerdd dant.



Diolch

Dymuna Carys Parry ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i’r Bore Coffi llwyddiannus dros ben a gynhaliwyd yn

festri Jerusalem ddiwedd Tachhedd. Gwnaed elw ardderchog o £600 tuag at gronfa Cancr y Prostrat Cymru.

GISDA

Diolch i drigolion Dyffryn Ogwen am anrhegion ar gyfer eu defnyddwyr gwasanaeth mewn basged y TESCO. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i’r bobl ifanc dros y Nadolig

Eglwys Crist, Glanogwen

Gwasanaethau
Cynhelir gwasanaethau’r Nadolig yn yr eglwys fel a ganlyn:
Sul Rhagfyr 23 am 11 y bore
Gwasanaeth Naw Llith a Charol
Noswyl Nadolig: Rhagfyr 24ain:
4pm: Wrth y Preseb – gwasanaeth byr i blant a’u teuluoedd i osod y preseb
9pm: Cymun y Nadolig
Bore Nadolig am 10 y bore:
Cymun y Nadolig
Pob Bore Sul:
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i’r holl wasanaethau. Anfonwn ein dymuniadau gorau i’n holl aelodau sy’n gaeth i’w cartrefi, sydd mewn ysbyty neu gartref henoed oherwydd gwaeledd neu anhwylder, gan ddymuno Nadolig Dedwydd i bawb.

Yr Egwys Unedig

Mae plant yr Ysgol Sul wedi bod yn ymarfer yn gyson ar gyfer y perfformiad ar ddigwyddodd yn ystod Oedfa Nadolig y Plant ar fore Sul, Rhagfyr 9fed.
Braf yw gweld bod cymdeithasau ac aelodau o’r cyhoedd yn gwneud defydd cyson o’r adeilad.
Cynhaliwyd bore coffi yn y festri ar gyfer yr elusen Cancr y Prostrat a gwneuthpwyd £600 o elw. Diolch i Carys am drefnu ac i bawb am gynorthwyo a chefnogi.

Y Gymdeithas
Rydym wedi cael dau cyfarfod ardderchog erbyn hyn:
Mis Hydref: Y Parchedig Mereid Mair a’r teulu o Gaernarfon fu’n diddori’r gynulleidfa gyda thalentau’r teulu’n disgleirio. Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan Joe Hughes gyda Jean Ogwen Jopnes yn cyflwyno’r diolchiadau.
Mis Tachwedd: Cafwyd sgwrs ddifyr gan Dr Gwyn Lewis o Gaernarfon. Coresawyd pawb i’r cyfarfod gan Joe Hughes a rhoddwyd y diolchiadau gan Emyr Roberts.
Diolch i bawb fu’n cynorthwyo gyda paratoi’r baned.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs

Myfanwy Jones sydd yn yr ysbyty ac i Mr Dewi Hughes sydd wedi dychwelyd gartef wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Trefn gwasanaethau mis Rhagfyr 2018.
Rhagfyr 9fed –10:30 Oedfa Nadolig y Plant 5:30 Mr Donald Pritchard.
Rhagfyr 16eg – 10:00 Ms Karen Owen
7:00 Gwasanaeth Cymunedol
Rhagfyr 23ain – 10:00 a 5:00 Mr Richard Lloyd Jones
Rhagfyr 25 – Cymun bore Nadolig dan ofal Y Parchedig R.O.Jones.
Rhagfyr 30ain Y Parchedig Iwan Llywelyn Jones.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

“Dynion Parchus? Y Potsiars Cymreig”
oedd testun darlith hynod o ddifyr a draddodwyd gan Einion Thomas ym mis Tachwedd.

Pen blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i Arwel Llechid Owen a Dawn Owen, 9 Ffordd Pant ar ddathlu eu penblwyddi arbennig. Arwel yn dathlu’r deugain a Dawn yn dathlu’r hanner cant.

Ysbyty

Eto bu sawl un yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau am wellhad buan iddynt, yn eu plith :- Mr. Brian Owen, Maes Coetmor; Mr. Ben Richards, Stryd John a Mrs. Marjorie Kimpton, Maes y Garnedd.

Cartrefi Newydd

Dymuniadau gorau i ddau deulu yn eu cartrefi newydd, sef Dewi a Morfudd Wyn a’r teulu yn Erw Las, ac Alan a Mared a’r teulu yn Rhos y Nant.

Hefyd, braf yw cael croesawu Meth, Lynne a’r plant i’w cartref newydd yn Glan Ffrydlas. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ôl yn Pesda!

Croeso nôl i Fehesda i Jamie, Kirsten a Belle i’w cartrefi newydd yn Glan Ffrydlas.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Teulu’r diweddar Mr. Raymond Owen, Nant y Gro, sef Sandra, ei briod, a’r teulu ym Methesda, Gerlan, Braichmelyn a Llanllechid.

Mr. a Mrs. John Cooney a’r teulu, Glan Ffrydlas. Bu farw brawd John yn Llundain. Teulu’r ddiweddar Mrs. Ann Andrew, Llandudno, gynt o Glan Ffrydlas. ‘Roedd Ann yn ferch i’r diweddar Mr. a Mrs, Glyn tegai Willams.



Mrs. Joan Griffith a'r teulu, Glan Ffrydla, yn eu profedigaeth o golli Mrs. Sheila Parry, Caernarfon.

Marwolaeth

Mr. Neville Jones

Yn ei gartref yn Carneddi ar 28 Hydref, bu farw Mr. Neville Jones yn 67 mlwydd oed. Priod y ddiweddar Mrs. Gillian Jones, a mab y diweddar Mr. a Mrs. Arthur Jones, Ffordd Pen y Bryn. Bu ei angladd ddydd Mercher, 21 Tachwedd gyda gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

Mr. Peter Leung

Ar 4 Tachwedd, yn ei gartref yn 6 Rhes Ogwen, bu farw Mr. Peter Leung yn 84 mlwydd oed. Tad caredig ac annwyl i Mary, John a Peter. Taid hoffus a brawd annwyl. Cynhaliwyd yr angladd yn amlogsgfa Bangor ar ddydd Llun, 19 Tachwedd. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Mrs. Elizabeth Helen Evans

Yn ei chartref yn Nhregarth ar 1 Rhagfyr, bu farw Mrs. Elizabeth Helen Evans (Bing), gynt o Rhos y Coed. 'Roedd yn 72 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Gwyn Evans, cyfaill annwyl i Brian a mam hoffus i Barry, Siân a'i chymar, Arwyn. Roedd hefyd yn nain annwyl i Gethin Lois ac yn chwaer a modryb garedig. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Eglwys Coetmor, ddydd Iau 6 Rhagfyr, gyda'r Parchedig John Mathews yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Diolch

Dymuna Matthew Parry ddiolch o waelod ei galon i bawb sydd wedi bod yn hynod o garedig tuag ato fo a'i deulu ers iddo gael ei anafu mewn gêm rygbi ym mis Medi. Mawr yw ei ddyled i'r nifer o bobol sydd wedi cyfrannu i'r dudalen "Gofund Me", i aelodau Capel Shiloh Tregarth, Clwb Karate Tregarth ac i Londis Bethesda am gasglu arian iddo. Yn anffodus ni fydd Meth yn medru dychwelyd i'w waith fel sgaffaldiwr am sbel, os o gwbwl, oherwydd ei anaf. Mae ei ddyfodol yn y swydd yn ansicr ar hyn o bryd, felly, mae'r rhoddion yma wedi ei helpu rhywfaint, gan na fedr o weithio i ennill cyflog. Diolch yn fawr iawn.

Mae Geraint Williams, 39 Abercaseg yn ddiolchgar iawn i bawb a gofiodd am ei benblwydd yn 40 oed ar 20 Hydref. Llongyfarchiadau mawr Geraint! Ymlaen rwan am y 40 mlynedd nesaf!

Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Ceri Lloyd Roberts o Abercaseg sydd wedi graddio fel Ymwelydd Iechyd ym mis Tachwedd, yn dilyn cwrs



ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Mae Andrew, nain, mam a'r plant yn falch iawn ohoni.

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATIL



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

**Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

**Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda**

☎ 01248 601052

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwllans Gogledd Cymru**

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



**01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk**



Ysgol Llanllechid

Pantomeim Branwen

Aeth dosbarth Mrs Wilson i Theatr Pontio i fwynhau sioe Pantomeim Branwen Ferch Llyr. Dyma yw un o storïau mwyaf adnabyddus Pedair Cainc y Mabinogi. Mae'n debyg mai rhai o'n hoff gymeriadau yw Bendigeidfran y cawr, ei chwaer hardd Branwen, a'r hanner brawd dieflig Efnisien. Cofiw'n am Bendigeidfran yn eistedd ar graig Harlech, yn syllu allan dros y mor; Matholwch, brenin Iwerddon yn hwylio'r Mor Celtaidd i chwilio am wraig; Llys Aberffraw yn cynnal neithior y briodas; ymgyrch y Cymry yn Iwerddon; ac wrth gwrs bedd Branwen ar lan afon Alaw ar Ynys Môn. Diolch yn fawr i Gyfeillion Ysgol Llanllechid am dalu costau'r bws.

Ffair Lyfrau

Cynhaliwyd ein Ffair Lyfrau flynyddol a diolchwn o galon i Meleri Davies am ddod a llyfrau Cymraeg i ni eu gwerthu o Siop Ogwen - lle da iawn am anrhegion Nadolig! Rydym yn ffodus iawn o'n rhieni ac mae'n werth darllen y llyfr 'Codi Llais', lle mae Meleri wedi ysgrifennu pennod ynddo, mynnwch gopi! Diolch i bawb a ddaeth i'r ysgol i gefnogi'r Ffair Lyfrau!

Plant Mewn Angen

Godwyd £504 eleni yn ystod ein diwrnod Plant Mewn Angen, sy'n glod i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am gefnogi'r elusen hon. Cafwyd gweithgareddau amrywiol, a'r uchafbwynt heb amheuaeth, oedd taflu sbwnjus gwlyb at Mr Ady! Cafwyd sbort a sbri drwy'r dydd ac mae'r lluniau sydd ar ein gwefan yn tystio i hynny, does ond angen edrych ar wynebau'r plantos! Diwrnod llwyddiannus! Diolch i'r Cyngor

Ysgol am eu trefniadau a da iawn pawb ohonoch.

Torchau Nadolig

Llawer o ddiolch i Mrs Caroline Jones am ddod i mewn i ddosbarth Blwyddyn 6 i gynnal gweithdy creu torchau Nadolig. Yn gyntaf, bu rhaid i rai o'r plant fynd i Bron Arfon, tŷ Anti Wendy i held dail a chelyn o'r gwrychoedd, cyn eu defnyddio yn haenau yn y torchau. Fel rhan o'n gwaith Mentergarwch, gwerthwyd pob torch am £5, a gwnaethpwyd elw. Diolch o galon i dad a mam Noah, Mrs Stephen Jones a Mrs Caroline Jones am ddod atom i ddysgu'r sgil newydd sbon i'n disgyblion.

Ffair Nadolig - Diolch yn Fawr

Diolch anferthol i bawb ohonoch am Ffair Nadolig wrth chweill! Roedd hi'n bleser bod yno yng nghanol yr holl brysurdeb a'r bwrilwm. Diolchwn i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau y Ffair Nadolig orau eto! Gwnaethpwyd elw o £1584.00 i gronfa'r ysgol. Diolch o waelod calon!

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn eto eleni a daeth llu o wobrau llwyfan, ysgrifenedig a chelf a chrefft i Ysgol Llanllechid. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan Ysgollanllechid.org

Canu yn Ysbyty Gwynedd

Bu rhai o ddisgyblion dosbarth Mr Stephen Jones yn diddanu cleifion yn Ysbyty Gwynedd ar brynhawniau yn nechrau Rhagfyr. Cafwyd cyfle i ganu rai o ganeuon y Sioe Nadolig a'r gynulleidfa wrth eu boddau. Diolch i Mrs Delyth Humphreys am eu hyfforddi.

Nyth Y Gân



Y Faenol Fawr, Bodelwydden
(Ymweliad yng nghwmni Ieuan Wyn a arferai aros yno'n hogyn pan oedd ei ewythr a'i fodryb yn berchnogion ac yn ei ffermio.)

LLUN O'R FAENOL FAWR

Yn brifardd ef a brofodd y Faenol
Hynafol a'i denodd;
I gwr' â'i deulu garodd
Aeth i fan oedd wrth ei fodd.

Yn ei fyd bu'r Faenol Fawr a'r hanes
Mor hynod o werthfawr;
Awn ni i fyny'r grisiau'n awr
Yn troelli rhwng y trillawr.

Hen dderwen, hi a ddaru roi yno
Hir hanes dodrefnu,
A hynod yw'r rhai hynny
Yno'n dal y cadarn dŷ.

Mynnodd y seiri meini i'r Faenol
Droi'r fan i'w drysori,
A'r hyn a wnaeth y rheini
Yno'n awr sy'n wych i ni.

Estyn fu'r hirion drawstiau, a gorwedd
I gyrraedd y walïau,
A llafur seiri llifïau
Yno'n gain, i gyd yn gwau.

Heddiw y mae'r hanesyddol bethau
Am byth yn bresennol;
Siwrneïau pensaernïol
Ei ddoe yn awr a ddaw'n ôl.

Dafydd Morris

(Rydym yn ailgyhoeddi'r golofn gan nad oedd wedi ymddangos ar ei ffurfwir y mis diwethaf.)



Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Dda i'n holl
ddarllenwyr.





Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Bydd yn mynd (3)
- 3 ‘Cwm Carnedd’, Tilsley neu ‘Cilmeri’, Gerallt (4)
- 7 Hyn wyf i’m gwlad yn ôl byrdwn ein hanthem (8)
- 8 Fferins gwlad gymysg y Pharo efallai (4)
- 9 Derbyn a dilyn y drefn (11)
- 11 Blin a chas, mewn tymer ddrwg (6)
- 13 Fel y ddaear neu’r llyn yn rhewi (6)
- 14 Ble y cewch chi wersylla ar olwynion (4,7)
- 17 Mr. Huws yn nofel enwog D.O. (4)
- 19 ‘Côr Gobaith tref ----- ‘ medd y cynganeddwr o Fôn (8)
- 20 Pwyslais fel mewn cerddoriaeth neu farddoniaeth (4)
- 21 Brecwast y Crynwyr efallai (3)

I LAWR

- 1 Anffawd wrth roi cant ar lanw cymysg (5)
- 2 Cyfaill ffyddlon (5,4)
- 3 Mae tair yn aml mewn drama lwyfan (3)
- 4 Di-gwsg ym mol dad, fel y gwanwyn tybed (7)
- 5 Mae pen pella’r sychdir yn dechrau mygu ac yn dangos amarch a gwarth (6)
- 6 Y deg haint gynt yn 8 Ar Draws (4)
- 10 Bol buwch ddu medd rhai (3,1,5)
- 12 Calendr mewn llyfryn, fel un o 19 Ar Draws gynt (7)
- 13 Gall ateb, dangos hyd eich taith neu roi eich hanes ar derfyn eich taith (6)
- 15 Ceiriog ganodd i’r ymwelydd llwydlas pluog (4)
- 16 Bod yn gyfarwydd, ar lafar (5)
- 18 Pero, Mot a Meg (3)


ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2018

AR DRAWS 1 Sgip, 4 Draw, 8 Lefren, 9 Aderyn, 10 Ynys Seiriol, 11 Palu, 13 Mans, 16 Cenedlaethol, 19 Anaddas, 20 Melodi, 21 Cnoc, 22 Chwâl

I LAWR 2 Gwely, 3 Parlysu, 4 Dynesu, 5 Arabia, 6 Llechi, 7 Cyrlen, 12 Amcanu, 13 Matholwch, 14 Edison, 15 Tarmac, 17 Noddi, 18 Lydia

Yr unig gamgymeriadau y tro yma oedd ‘Oged’ yn lle ‘Sgip’, a ‘Dyrnydu’ yn lle’r ateb cywir ‘Parlysu’.

Dyma enwau’r rhai anfonodd atebion cywir : Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Dilys Wyn Griffith, John a Meirwen Hughes, Abergele; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Gill King, Mynydd Llandygai; Adrian Poulton, Pentir; Myra E. Evans, Niwbwrch;



Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Ann Carran, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gareth William Jones, Bow Street; Dilys Parry, Rhiwlas; John H. Evans, Llanberis; Iona Williams, Llanddulas; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; Doris Shaw, Bangor. Llongyfarchiadau mawr i Jean Hughes, Bryn Awel, Talybont, Bangor, LL57 3UU am fod yr enw cyntaf o’r het y mis yma.

Hi felly sy’n derbyn y wobr. Diolch i bawb anfonodd ddymuniadau da a chyfarchion Nadolig, a dymunaf innau Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chwithau.

Atebion erbyn 4 Ionawr, 2019 fan bellaf i ‘Croesair Rhagfyr’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 4 Ionawr i ‘Croesair Rhagfyr’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Colled

Daeth profedigaeth i ran Val Unsted, Nicholas a Seren, 3. Dolhelyg, ar ddiwedd mis Hydref, pan fu farw Bridget Unsted, chwaer-yng- nghyfraith Val, a modryb i Marilyn Thomas, 78. Bro Emrys. Cydymdeimlwn â'r ddau deulu yn eu galar.

Collodd Mrs Enfys Jones, 2. Cae Gwigin, ei nai yng nghanol mis Tachwedd. Bron ar yr un pryd, bu farw ewythr iddo, brawd ei fam, oedd hefyd yn ewythr i Keith Jones, 'Tŷ Ni', Bro Emrys. Anfonwn gydymdeimlad dwys at y teuloeedd oll.

Babi newydd

Mae Frank a Jane, Tŷ Mawr, yn Nain a Taid am y pedwerydd tro. Ganwyd Blake Arthur i'w merch, Lizzie, a'i gŵr yng Nghroesoswallt. Mae ei chwaer fawr, Tabitha, wedi gwirioni'n lân efo fo, a'r ddwy gyfnither, Charlotte ac Evie, yn Windsor, wrth eu bodd efo'u cefnder bach.

Symud tŷ

Mae Jean Hughes wedi gadael 3 Talybont Cottages, ar ôl 48 o flynyddoedd. Mae'n anodd dychmygu'r lle hebddi, a dweud y gwir. Beth bynnag, mae hi wedi penderfynu gwneud ei chartref efo ei merch, Julie, a'i dau ŵyr, Tom ac Alex, yng Nghyffordd Llandudno.

Jean, rwyt ti'n gadael Talybont efo dymuniadau gorau dy deulu a'th ffrindiau lawer. Gobeithio y byddi'n hapus iawn

yn dy gartref newydd, ac y cei iechyd da i'w fwynháu.

Ar yr un pryd, estynnwn groeso cynnes i rhif 3. i Chris a Laurie o gyffiniau Nottingham. Does dim llawer o amser ers iddynt ddychwelyd o'u taith o gwmpas y byd yn eu llong hwyliau. Maent yn edrych ymlaen at ddod i adnabod y cymdogion ac ymgartrefu yn yr ardal.

Mae Siôn Kendrick, 4. Lôn Ddŵr, wedi gadael y nyth ac wedi mynd i fyw i'r Rhyl. Athro Hanes yn Ysgol Eirias, Bae Colwyn, ydi Siôn. Dymunwn bob dedwyddwch iddo ef a'i gymar Natalie yn eu cartref newydd.

Deallwn fod Mrs Rhodwen Jones, 2. Cae Bach, wedi symud i gartref preswyl. Dymunwn wellhád buan iddi.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ashley Redfern-Williams, mab Arnold ac Amanda, 8. Cae Gwigin. Cipiodd ef, a'i gyd-weithwyr yng Ngwesty Portmeirion, y wobwr am 'Westy gorau 2018', ar noson wobrwyo 'Go North Wales Tourism' a gynhaliwyd yn 'Venue' Cymru, Llandudno, yn ddiweddar. Mae'n braf gweld Ashley yn llwyddo mor dda ym maes arlwyfaeth a rheoli; ffrwyth ei waith caled yn sicr.

Anffawd

Syrthiodd Eleri Pritchard, 14. Dolhelyg, i lawr y grisiau yn yr ysgol a thorri ei braich. Brysia wella, Eleri ! Gobeithio y cei dynnu'r platar erbyn y Nadolig, iti allu mwynháu'r Wyl efo gweddill y teulu.

Hwyl yr Wyl

Dymunwn Nadolig llawn bendithion, i drigolion Talybont a'r Dyffryn i gyd; a'r iechyd gorau posibl i bawb, hyd gydol y flwyddyn nesaf.

Eglwys St Cross, Maes-y-Groes

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Gwasanaethau dros y Nadolig:
Dydd Sul 23ain: Carolau am 11 o'r gloch, gyda phanad a mins pei i ddilyn yn yr Ysgoldy
Dydd Nadolig: Offeren am 10.30 y bore
Dydd Sul 30ain: Gwasanaeth undebol am 11 o'r gloch

Penblwydd arbennig: Methais, mae gen i ofn, gynnwys gair mis diwethaf i longyfarch Alan Hughes, 1 Bro Emrys, wrth iddo ddathlu ei benblwydd yn 80 ddechrau mis Tachwedd. Dymunwn bob dymuniad da iddo, a hefyd diolch am y cacennau a ddaeth o a June i'r Bore Coffi yr wythnos honno.

Genedigaethau: Croeso cynnes a dymuniadau gorau i William Jonas, mab Claire ac Andy Butterfield (merch a mab-yng-nghyfraith Keith ac Yvonne, Meadowsides), a gafodd ei eni ym mis Hydref, brawd bach i Asa; a hefyd i Begw Wyn, merch Lowri a Derfel Owen (merch a mab-yng-nghyfraith Glenys Jump, Corbri) a gafodd hithau ei geni

ym mis Hydref, chwaer fach i Elain Hâf.
Bore Coffi: Diolch i Dennis a Beryl Wright a Barrie ac Ivy Lill am drefnu Bore Coffi Nadolig bendigedig ddechrau mis yma. Mi fydd y Bore Coffi ym mis Ionawr ar yr ail dydd Mawrth, sef Ionawr 8fed, nid ar Ddydd Calan!

Capel Bethlehem

Oedfaon
Rhagfyr 23: Gweinidog.
Rhagfyr 30: Parchg. Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog.
Ionawr 06: Oedfa dechrau'r flwyddyn.
Ionawr 13: Gweinidog.
Ionawr 20: Parchg. John Lewis Jones.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig

Er gwaetha'r tywydd garw cawsom gefnogaeth dda iawn ar nos Fercher, 26 Tachwedd. Diolch yn fawr i bawb. Gwnaed elw ardderchog o £630.00.

Cyfarchion y Tymor

Dymunwn holl fendithion yr Wyl i bawb , ac yn arbennig i'r rhai ohonoch nad ydych mewn iechyd ar hyn o bryd.

Yr Ysgol Sul

Yn dilyn y Diolchgarwch mae'r plant wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer ein Gwasanaeth Nadolig Teuluol ar 16 Rhagfyr. Dyma lun ohonynt ynghanol eu prysurdeb.



JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)





Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57
4HU ☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai Nadolig Llawen!

Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed bendith yr Ŵyl ar eich teuluoedd a'ch cartrefi.

Bingo'r Nadolig

Cafwyd cyfle arall i fwynhau hwyl a sbri Bingo St Tegai ar ddydd Iau Tachwedd 29ain am 7.00 o'r gloch yn Neuadd Talgai y pentref. Cyfrannodd yr elw o £146 at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys a hoffem ddiolch i Pauline a Raymond am arwain yr hwyl.

Cydymdeimlad

Ar Ragfyr 7fed bu farw Roy Bentley (o Barc Penrhyn gynt) ar ôl gwaeledd hir. Treuliodd Roy ei blentyndod ar Stâd y Penrhyn. Er yn byw yn Llandegfan roedd Roy a Maureen ei wraig yn hoff iawn o addoli yn achlysurol yn St Tegai. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Maureen a'r teulu oll.

Hefyd trist yw mynegi ein cydymdeimlad i deulu Geraint Hickman o Fynydd Llandygai. Roedd yn gyfaill ffyddlon i Eglwys St Tegai ac yn fodlon rhannu ei arbenigedd wrth baratoi y cyllid. Bydd colled ar ei ôl.

Raffi Santes Dwynwen a Bingo'r eglwys Nos Fawrth Ionawr 31

Mae'n draddodiad erbyn hyn i aelodau'r eglwys werthu tocynnau raffi i ennill potel "champagne" i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Bydd y tocynnau ar werth o'r Nadolig ymlaen a bydd y tocyn buddugol yn cael ei dynnu yn noson Bingo yr eglwys ar nos Iau, Ionawr 31ain am 7.00 yn Neuadd Talgai. Dewch i'r

Bingo i ysgafnhau nosweithiau llwm mis Ionawr!

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Ceri Edwards ei phenblwydd yn 80 oed ar ddiwedd mis Tachwedd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r gwyliau a'r dathliad gyda'r teulu, Ceri! Dymuniadau gorau i chi oddi wrth cynulleidfa St Tegai.

Rhagrybudd Gwasanaethau'r Nadolig Eglwys Sant Tegai

Bwriedir cynnal gwasanaeth dwyieithog traddodiadol Naw Llith a Charol ar nos Sul, Rhagfyr 23ain am 5.00 y pnawn. Bydd lluniaeth ysgafn nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth. Cynhelir gwasanaeth Noswyl y Nadolig am 11.15 y nos ar Ragfyr 24ain. Ni fydd gwasanaeth yn yr Eglwys ar Ddydd Nadolig ond bydd cyfle i ddathlu'r ŵyl yn Nhregarth am 9.00 neu yn St Cross am 10.30. Dydd Sul, Rhagfyr 30ain am 11.00 y.b. byddem yn ymuno gyda chynulleidfa St Cross Talybont am wasanaeth ar y cyd.

Gwasanaethau mis Ionawr

Y drefn arferol yn St Tegai yn ystod y mis yw:
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.
Gwasanaeth Taizé am 5 y.h. ar y pedwerydd Sul yn y mis.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dei ag Eirlys Edwards ar ddod yn Hen Nain a Taid unwaith eto. Ganwyd Owen Elis i Matt a Katy Regan, Gaer, brawd bach i Erin.

Parti Pentref

Diolch i Bwyllgor Neuadd Talgai am drefnu Parti blynyddol y pentref unwaith eto. Roedd pawb wedi mwynhau cymdeithasu. Nadolig llawen i drigolion yr ardal, gan Eirlys a Iona, gohebyddion y pentref.

Marchnad Ogwen

Noson hapus, gymunedol, brysur, gerddorol ... mi fuasai'n hawdd iawn rhestru mwy o ansoddeiriau!

Ia, y Farchnad Nadolig ar nos Fercher, Tachwedd 21ain - oedd yn llwyddiant sicr unwaith eto. I goroni pob dim, daeth tîm ffilmio'r rhaglen 'Heno' gyda Gerallt Pennant atom ni hefyd. Mae gennym stondin gacennau 'di-glwten' gyda Gwenno Jones wedi cychwyn yn y Farchnad a gwneud eitem arni hi oedd 'Heno' yn bennaf. (Mi fydd Gwenno yn cychwyn go iawn efo ni ym Marchnad Ionawr gan ei bod yn Awstralia gyda theulu dros y Nadolig). Trefnwyd dau hamper - llysiau a ffrwythau - gan Edwina (sydd gyda'r Stondin Wyau a Llysiau) a gwerthwyd tocynnau raffi. Yr enillwyr oedd Mrs Myfanwy Harper a Mrs Margaret Bowen Rees. Roedd yr elw yn mynd i'r Syrjeri. Diolch yn fawr i Edwina am drefnu. Y Boncathod oedd yn ein diddanu fel arfer gyda'u carolau hyfryd. Yn anffodus, bu'n rhaid iddynt ganu wrth y drws tra roedd y ffilmio yn digwydd! Diolch yn fawr i chi genod a gobeithio i chwi gasglu swm sylweddol i'r Ambiwlans Awyr. Noson ardderchog, lobsgows blasus a chwmni difyr!

Yr Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch sydd yn cynnal y Stondin Elusen ym Marchnad Ionawr 12fed. Dim ond mis Awst sydd yn rhydd trwy 2019 erbyn hyn.

Os oedd rhes o ansoddeiriau positif yn dechrau hanes y Farchnad y mis yma, mae'r rhai sy'n gorffen y stori yn mynd i fod yn o drist! Colled enfawr, dim danteithion o'r safon uchaf.... Yn anffodus iawn i ni ym Marchnad Ogwen, mae Delyth Jeffreys yn rhoi gorau i'w Stondin 'Cegin Brysur' Mae Delyth wedi bod yn rhan o'r Farchnad ers ei chychwyn yng Ngorffennaf 2011. Diolch o galon am bob dim Delyth a mwynha' dy amser gyda'r teulu. Yn ffodus, mae Delyth am barhau yn aelod o Bwyllgor y Farchnad. Bydd Lois Nottingham yn cynnal Stondin Gacennau o fis Ionawr ymlaen.

Diolch i bawb sydd wedi ein cefnogi yn ystod 2018. Mae'r Farchnad yn rhan bwysig o'r gymuned ym Methesda a gobeithio y cawn eich cwmni yn 2019.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid.

Mae gwybodaeth lawn ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207



Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd pwyllgor ein cangen ddiwedd mis Tachwedd. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sir, Rheinallt Puw bod Sian Gwenllian A.C. bellach yn edrych ar y broblem trafndiaeth sy’n digwydd o flaen Ysgol Pen-y-bryn. Da iawn yw gweld bod y llyfrgell bellach yn Lyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, ac er bod y gwasanaeth yn dal yng ngofal y Cyngor Sir, Partneriaeth Ogwen sy’n gyfrifol am yr adeilad, yr ystafelloedd a’u llogi, a hynny oherwydd bod y Cyngor Sir yn mynd drwy gyfnod o drosglwyddo asedau.

Dwywedodd Rheinallt hefyd bod yr ieuenctid wedi bod yn cael Sesiynau Blasu sef nosweithiau o weithgareddau dan ofal y Cyngor Sir dros yr wythnosau diwethaf. Roedd yn falch o gael dweud bod dau arweinydd newydd yn cychwyn ar ei swyddi o arwain Clwb Ieuenctid yng Nghanolfan Cefnfaes o fis Ionawr. Mae diolch i’r Cyngor Cymuned am y gwasanaeth yma.

Adroddodd y Cynghorydd Paul Rowlinson ei fod wedi llwyddo i gael tarmacio rhan o’r Stryd Fawr, Rachub o Royal Oak at gapel Carmel. Bu ef a Rheinallt yn gyfrifol bod rhannau o Hen Barc, Ffordd Carneddi a Ffordd Ffrydlas yn cael ei chlytio. Gyda thoriadau llym yng nghyllid y Cyngor Sir bu raid iddynt weithio yn galed er mwyn cael hyn.

Mae Rheinallt hefyd wedi gwneud yn siwr bod y Stryd Fawr ym Methesda yn cael ei hysgubo a’i glanhau yn amlach. Canmolwyd gwaith Adam hefyd, sy’n cael ei gyflogi gan Bartneriaeth Ogwen ar ran y Cynghorau, am ei waith diwyd yn ceisio cadw ein pentrefi yn daclus.

Cafwyd gwybodaeth gan y Cynghorwyr Cymuned bod cynlluniau ar gyfer Maes Parcio Gerlan yn symud ymlaen. Trafodwyd hefyd y problemau wrth Llyn Ogwen ac yn Nant Ffrancon. (gwelir adroddiad am hyn yn Y Llais) Am unrhyw wybodaeth am ein cangen neu os am fod yn aelod cysylltwch â Mary 07443047642 neu Neville 600853.

CHWILA R

J	I	N	I	B	A	C	H	P	E	N	C	A	E	A	A	W	W	F	H
R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	O	M	V	S
H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	L	F	A	D
H	A	R	R	I	B	A	C	H	C	L	O	C	S	I	A	G	F	D	N
Y	N	E	W	A	L	L	G	I	L	O	D	A	N	N	S	H	R	A	P
N	N	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	T	E	Z	C	A	G	R
C	H	Y	C	U	M	W	N	O	Y	R	I	I	H	A	S	A	T	Z	U
L	T	F	R	D	X	U	P	W	R	H	E	R	C	Q	H	B	Y	P	W
N	E	H	O	B	Y	E	E	G	E	L	N	O	M	H	E	W	T	O	P
O	T	T	C	B	N	B	C	U	I	E	U	J	P	L	T	O	O	T	M
W	I	V	V	D	C	A	B	N	P	B	F	R	F	O	G	N	P	Y	J
M	V	I	I	R	R	X	T	N	I	M	H	T	T	O	S	D	K	T	O
O	P	W	R	C	M	K	Y	R	C	B	O	R	C	X	V	W	R	A	Y
I	H	S	T	M	R	W	E	F	U	Y	J	D	Z	H	B	A	C	S	W
O	S	C	R	A	L	I	X	N	I	H	L	X	J	J	M	R	B	U	W
T	E	X	M	E	D	X	K	F	U	P	T	C	Q	Y	O	B	I	E	L
F	N	O	I	N	Y	W	G	I	S	E	H	R	T	E	C	M	E	L	R
C	A	N	O	N	Z	Q	R	O	C	T	D	G	A	W	S	E	L	Z	E
B	E	A	J	K	P	R	E	I	S	S	G	W	L	J	C	L	N	L	R
V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T

Cymeriadau yn y nofel Un Nos Ola Leuad

Yn y chwila'r mis yma mae TRI AR DDEG o atebion i'w darganfod, DEUDDEG ohonynt yn GYMERIADAU O'R NOFEL 'UN NOS OLA LEUAD', a'r llall yn gysylltiedig a'r adeg yma o'r flwyddyn. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwila'r dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn IONAWR 2. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

'Rwyf wedi bod yn ail ddarllen 'Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad' gan J. Elwyn Hughes yn ddiweddar, ac wedi ei fwynhau yn fawr iawn. Os nad ydych wedi ei ddarllen yn barod, yna galwch

heibio'r llyfrgell a'i fenthycu. Roeddwn yn meddwl fod enwau'r cymeriadau yn y nofel gan Caradog Prichard yn destun da i chwi tros y Nadolig, pob hwyl. Daeth atebion Rosemary Williams ar gyfer mis Hydref ddiwrnod yn hwyr trwy'r blwch post, ac 'roeddwn wedi anfon y deunydd ar gyfer mis Tachwedd ymlaen yn barod. Nifer fawr ohonoch wedi torri rhai o atebion mis diwethaf i fyny yn ddau, e.e Dyfeiswyr a Cymraeg yn lle Dyfeiswyr Cymraeg. a Ffermydd a Penrhyn yn lle Ffermydd Penrhyn. Wrth wneud hyn nid oeddych wedi darganfod y deuddeg ateb llawn. Rhai eraill wedi dod ar draws geiriau fel Hin a Pwer.

Dyma atebion Tachwedd :- Adar Prydain; Anifeiliaid; Blodau; Brenhinoedd; Diarhebion; Dyfeiswyr Cymraeg; Englynion; Ewrop; Ffermydd Penrhyn; Gweithfeydd; Pontydd; Ysgerbwdd. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Mair Jones, Ffordd Bangor; Doris Shaw, Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mrs Gwen Davies, Tanysgafell Isaf; Myfanwy Jones, Gaerwen; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Glenys Roberts, Hen Barc; Rosemary Williams, Tregarth. **Enillydd Tachwedd oedd:** Glenys Roberts, 1 Hen Barc, Llanllechid.



Ysgol Rhiwlas

Sioe Nadolig

Mwynhaodd y disgyblion gymryd rhan yn ein sioe gerdd eleni- Annie. Bu'r disgyblion yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi. Diolch yn fawr iawn i Elwyn a'r pwyllgor am adael i'r ysgol ddefnyddio'r neuadd bentref i berfformio.

Ffair Grefftau

Cynhaliwyd Ffair Grefftau blynyddol yn yr ysgol Nos Iau, Tachwedd 29. Diolch i Mrs Halstead a Anti Karen am ei drefnu- braf oedd gweld yr ysgol yn cael ei gefnogi gan fusnesau lleol. Diolch i bawb - Nadolig Llawn!

Myfyrwyr

Hoffem ddiolch i'n myfyrwyr o Brifysgol Bangor am eu holl waith caled dros y tymor. Bu'n bleser cael Miss Gwen Elin Jones ac Miss Emily Ann

Pritchard yma yn yr ysgol. Dymunwn pob lwc i chi am y dyfodol a cofiwch gadw mewn cysylltiad.

Y Wyddfa

Ym mis Hydref aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i fynyr Wyddfa o dan arweiniad Anelu. Roedd y tywydd yn arw iawn gyda'r gwynt a'r glaw yn brwydro yn ein herbyn ond roedd y daith yn un fendigedig, yn enwedig wrth fwynhau siocled poeth yn y caffi ar y copa. Diolch i Dewi Emlyn am ein harwain.

Ymweliad Plas Ogwen

Dydd Mawrth, Rhagfyr 18fed, aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i ganu caneuon Nadolig i breswylwyr Plas Ogwen. Mwynhaodd yr holl blant dreulio'r bore yn canu ac yn sgwrsio. Diolch i bawb am y croeso cynnes!

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes
600853 (nev_hughes@btinternet.com)



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

williams@parliament.uk



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

S4C

Cyw

Gŵyl Cymryd Rhan

Dydd Sul
13 Ionawr
Theatr Venue Cymru

10.00

Sioe Cyw

11.30

Sioe Cyw

2.15

Sioe Cyw

3.40

Canu a Dawnsio gyda Cyw
Llwyfan yr Arena

Tocynnau ar gael drwy ffonio Venue
Cymru 01492 872000 neu ewch i
www.venuecymru.co.uk

GWEITHDAI

ROWND A ROWND

11.00 – 12.30 A 1.30 – 3.00.

DYDD SUL 13.01.19

YSTAFELL CRAFTNANT

Cyfle i gyfarfod sgriptiwr, cyfarwyddwr a rhai o actorion y gyfres. Am Ddim



Y Dyddiadur toriadau (6)

Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel ‘Y Cloriannydd’ wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo

i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)
Perfformio ‘Tri Chryfion Byd’
Yn y bennod hon awn yn ôl at y perfformiad o ‘Tri Chryfion Byd’ gan Twm o’r Nant a

gynhaliwyd yn Llanfairpwll ar 6 Ebrill 1933 (gweler benodau 1 a 2). Y tro hwn enwir y sawl a gymerai ran a dyma nhw; Syr Tom Tell Truth – Cynan, athro’r dosbarth drama Traethydd – Mr Glyn Lewis Gwiddanes Tylodi – Miss Beti Owen Rhinallt Arianog – Mr W.H Roberts Lowri Lew – Mrs Williams Ifan Offeiriad – Mr E. H Evans Cariad – Miss Olwen Roberts Brenin Angau – Mr Alfred H Owen.

Dywed yr adroddiad mai ar fuarthau ffermydd ac mewn mannau agored eraill y chwaraeid anterliwtiau yn y ddeunawfed ganrif ac mai wagenni oedd y llwyfannau.

Nodir mai “ yn yr ysguboriau yr arhosai’r actorion eu twrn.”

Âr adroddiad ymlaen i ddweud mai, “arwyddion ac nid cymeriadau ydyw pawb yn anterliwtiau Twm (o’r Nant) ac un o’r golygfeydd mwyaf cynhyrfus yn y ddrama hon ydyw gweld y Brenin Angau yn rhoi’r ddyrnod olaf i’r Cybydd a Chariad yn dod i mewn i amddiffyn y Cybydd, a pheridddo gael troedigaeth.”

Yn ôl y gohebydd, “Er na fu Mon gan [sic] enwocod a rhannau eraill o’r Dywysogaeth am ei hinterliwtiau [sic] eto cawn eu bod yn boblogaidd yn

yr ynys tua dau gant o flynyddoedd yn ôl a’r werin yn dylifo i’w gwrando ar waethaf gwrthwynebiadau’r mawrion a’r personiaid swrth.”

Yna, eir ymlaen i ddyfynnu allan o ddyddlyfr William Bulkeley o’r Brynddu, Llanfechell, ar 30 Mai 1737 lle cyfeirir at yr elyniaeth honno; “ a sylwer ar ffrom aruthr y nodyn.”

Dyfynnir y cyfan o sylwadau William Bulkeley yn y Saesneg gwreiddiol lle mae’n dweud nad oedd llawer yn y gwasanaeth yn y bore a neb yn y nos a hynny oherwydd, “the abonimable custom of playing interludes which being so dumb, stupid and artless, in the matter and acting it is astonishing how anybody of ‘common sense’ can have the patience to behold.”

Aeth yr hen William ymlaen i gwyno fod mynychu’r fath berfformiadau yn gwneud i weision a morynion fod yn amharod neu’n analluog i weithio am ddiwrnod neu ddau wedyn.

Er gwaethaf tafodi William Bulkely mae’n amlwg mai o blaid canlynwyr yr anterliwtiau yr oedd y gohebydd oherwydd mae’n dweud mai nhw;

“a ddeffrodd Cymru i weld rhagrith a ffug yr hen drefn o grefydd ac a arloesodd y ffordd o flaen yr hen ddiwygwyr yn ein gwlad.”

Dywedodd y gohebydd bod Twm o’r Nant yn cydymdeimlo â’r tlawd a’r gorthrymedig ac, “mewn Cymraeg grymus, dinoethodd draha’r mawrion mewn byd ac eglwys.”

Diwedda’r erthygl gan siarsio pobl i fynd i weld y perfformiad yn y “Lecture Hall” yn Llanfairpwll a dywedir,

“Ni pherfformiwyd anterliwt ym Môn y ganrif hon na’r un o’i blaen.”

Dewis Fferyllfa

Ydych chi angen gweld y meddyg heddiw?

Os credwch fod gennych... camdreuliad, rhwymedd, dolur rhydd, peils, clwy’r gwair, llau pen, torri dannedd, brech clwt/cewyn, colig, brech yr ieir, llyngyr, dolur gwddw, tarwden y traed, llid yr amrant, briwiau yn y geg, doluriau annwyd, acne, dermatitis, ferwca, poen cefn, casewinedd, llindag y wain, llindag y geg, clefyd crafu.

Gall eich Fferyllydd roi cyngor a thriniaeth gyfrinachol GIG, yn rhad ac am ddim, heb ichi orfod trefnu i weld eich meddyg teulu.

© Hawlfraint y Goron 2016 WG8782

CSL

CSL

GWASANAETHAU CYNORTHWYO PFERM

Ydych chi angen cymorth gyda’r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost: admin@cslfarm.com,

Ein gwefan: www.cslfarm.com

Ysgol Bodfeurig



Plant Mewn Angen
Diolch i'r Cyngor Ysgol ac i blant yr ysgol am weithio'n galed i gasglu arian tuag at ymgyrch Plant Mewn Angen. Llwyddwyd i godi dros £140 trwy wisgo pajamas i'r ysgol a chynnal stondin gacennau. Yn ogystal a hyn roedd pawb wrth eu boddau yn cymryd rhan yn ymgyrch Aled Hughes i gyrraedd 10,000 Pawen Lawen – ewch i'n cyfrif Twitter i weld ein fideo!

Ymgyrch Bocsys Esgidiau
Pob blwyddyn bydd yr ysgol yn cefnogi ymgyrch bocsys esgidiau Teams 4U. Hoffem ddiolch o galon i blant, teulu a ffrindiau'r ysgol am gyfrannu record ysgol o 40 bocsys eleni!! Bydd y bocsys yn mynd yr



holl ffordd i Romania i roi gwên ar wynebaw plant bach yno. Dyma'r cyngor ysgol gyda gynrychiolchwyr Teams 4U yn casglu'r bocsys o'r ysgol.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Eleni cafwyd llwyddiant unwaith eto yng nghystadlaethau celf a chrefft yr eisteddfod. Llwyddodd bron i bymtheg o blant yr ysgol enill gwobrau. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Rydym yn falch iawn o bob un fu'n cystadlu ac yn cefnogi'r eisteddfod.

Cystadlu
Diwedd mis Tachwedd bu tim o blant yr ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth gymnasteg yng Nghaernarfon. Hefyd bu tim arall o blant yn cystadlu yn gala nofio yr Urdd. Gweithiodd pob un yn galed iawn yn hyfforddi ar gyfer y cystadlaethau cyn cynrychioli'r ysgol yn wych. Da iawn chi rydym yn falch iawn ohonoch!

Cinio Nadolig
Diolch o galon i Anti Anwen ac i Anti Dana am ein cinio Nadolig blasus. Mae Anti Anwen ac Anti Dana yn gweithio'n galed pob diwrnod i wneud cinio i ni ond heb os roedd y cinio Nadolig yn llwyddiant mawr!



Daeth y Rhyfel i ben ganrif yn ôl, ond bu tri o'r bechgyn farw ar ôl diwedd y Rhyfel

ER COF
HENRY ROBERT JONES

Rhif 310380
Caernarvon Bty., Royal Garrison
Artillery

A fu farw 05 – 01 - 1919
Yn 29 ml. Oed
Mae wedi ei gladdu yn mynwent
Eglwys Coffa Robinson, Coetmor.

ROBERT WILLIAMS

Rhif 62559 3rd Bn.,
CHESHIRE REGIMENT TRANS.
To (38835) 65th
LABOUR Coy., LABOUR CORPS.
A fu farw 22 – 05 – 1920
Yn 28 ml. oed
Mynwent Cyhoeddus Coetmor

WILLIAM OWEN

Rhif 74513 1st/10th bn.,
MANCHESTER REGIMENT
A fu farw 25 – 07 – 1921
Yn 22 ml. oed
Mynwent Cyhoeddus Coetmor

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Bentlech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	



Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw
LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Llais Newydd i Rachub a Llanllechid

Ar ôl bron i dair mlynedd o gasglu newyddion Rachub a Llanllechid ar gyfer Llais Ogwan, byddaf yn trosglwyddo'r gwaith i Emlyn Williams ym mis Ionawr. Mae wedi bod yn bleser bod yn ohebydd i chi, a bu'n ffordd dda o ddod i adnabod mwy o drigolion yr ardal. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, yn enwedig i Mr. Northam am ei arweiniad a'i gyfraniadau cyson. Pob hwyl i Emlyn Williams, a diolch iddo am gytuno i gymryd y gwaith.

Dyma ei fanylion i chi gael anfon eich newyddion ato:

Emlyn Williams
13 Hen Barc,
Llanllechid,
Bangor.
LL57 3RS
01248605582
07887624459
henbarc13@gmail.com

Clwb Llanllechid
Pnawn dydd Iau Tachwedd
22 cawsom fynd i fyny i'r caffi

Blondyn yn y Zip World. Yno cawsom de a scones neis iawn. Roedd yn bawn hynod o oer. Ar ôl cael ein te aethom i edrych ar y rhai oedd yn ddigon dewr i fynd ar y zip wire. Prysaraf i ddweud nad aeth neb o'r clwb ar y zip wire! Cawsom dipyn o wybodaeth gan y Llywydd am ddigwyddiadau'r Nadolig. Cafwyd pnawn pleserus iawn a phawb wedi mwynhau yn arw.

Penblwyddi
Penblwydd hapus iawn i Mr Godfrey Northam oedd yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio i chi gael diwrnod wrth eich bodd.

Cyfarchion
Dymuna Mrs Betty Jones Tan-y-Bwlch Rd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb yn yr ardal, a diolch am bob caredigrwydd.

Rhodd i'r Llais
Derbyniwyd rhodd o £20 i'r Llais er cof am Mr William John Evans (helpar Sion Corn) 15, Ffordd Llanllechid, Llanllechid a Mrs Glenys Evans, Ceunant Llanllechid, oddi wrth Gwil Rees, Karen, Tom a'r teulu i gyd. Diolch yn fawr.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Llongyfachiadau i bawb o'r ardal a fu'n llwyddiannus yn

Eisteddfod Dyffryn Ogwen, bu'n ddiwrnod i'w gofio!

Dianc!
Tybed faint ohonoch welodd Emma Louise Williams, Maes Bleddyn, ar S4C ddiwedd Tachwedd? Fe ymddangosodd Emma ar raglen o'r enw 'Dianc!', ble roedd yn rhaid iddi hi a dieithryn arall ddod o hyd i gliwiau, a mynd ar helpa drysor go wahanol. Fe lwyddon nhw'n rhyfeddol i gyflawni'r tasgau, ffeindio'r arian, a dod a'r wobr adref. Llongyfarchiadau Emma, a da iawn chdi am fod mor ddewr ac yn gymaint o hwyl!

Capel Carmel
Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)
Rhagfyr 23: Gweinidog.
Rhagfyr 25 : Bore Nadolig am 10.00.
Rhagfyr 30: Oedfa Garolau.
Ionawr 6: Gweinidog (Cymun).
Ionawr 13: Oedfa Madagascar.
Ionawr 20: Parchg. Ddr. Siôn Aled Owen. (2.00)

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Pysur bob nos Wener am 6.30.
Te Bach. Dydd Llun, Ionawr 28. (2.30 - 4.00yp.)
Dosbarth Gwau ar ddydd Llun, (2.00 - 4.00yp), Ionawr 7 a 21.
Cofion cynnes at bawb dros y Nadolig a'r Flwyddyn newydd, yn arbennig at yr aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi, sef:- Mrs. Dora Williams, Bron Arfon; Mrs. Betty P. Jones, Tanybwlch; Mr. a Mrs. Thomas Jones, Rhos y Coed; Mrs. Violet Williams, Llanrug; Mrs. Phyllis Evans, Treborth Newydd; Mrs. Phyllis Mary Parry, Caernarfon.
Llongyfarchiadau i Gwilym a Gwenda Evans ar achlysur dathlu 50fed penblwydd eu priodas ar 16 Tachwedd. (Priodas Aur).

Bu dau o'r aelodau yn yr ysbyty yn ddiweddar ac 'rydym yn anfon ein dymuniadau gorau am wellhad buan iddynt, sef Mrs. Glenys Edwards, Cwlyn a Mr. Ben Richards, Stryd John.



Dyma lun rhai o'r plant yn rhoi anrheg o blanhigyn hardd i Mr. Northam, ac yn y llun hefyd mae Charmaine a William, sy'n dod i helpu'r athrawon ar fore Sul.

Ffotograffiaeth

- (Print dim llai na 7"5")
- A. Adeiladau , lleoliadau neu olygfa o Rachub, Caellwngrydd neu Llanllechid.
 - B. Cymeriad/Cymeriadau o Rachub, Caellwngrydd neu Llanllechid.

Gwobr: £25

Arlunio

- (Unrhyw gyfrwng)
- A. Adeiladau , lleoliadau neu olygfa o Rachub, Caellwngrydd neu Llanllechid.
 - B. Cymeriad/Cymeriadau o Rachub, Caellwngrydd neu Llanllechid.

Gwobr: £25



Diolch i'r aelodau a chyfeillion am eu ffyddlondeb o Sul i Sul gan sicrhau fod drysau Carmel yn dal ar agor. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai a fu'n cyfeilio ar y Sul, sef Rhian Roberts, Helen Williams, John R. Jones ac Owain Morgan. Diolch hefyd i'r rhai fu'n rhoi blodau yn y capel o Sul i Sul yn ystod 2018.

Dymuna'r Gweinidog a Swyddogion Carmel Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd dda i holl aelodau a chyfeillion Carmel.

Yr Ysgol Sul

Roedd un o athrawon mwyaf teyrngar ein hysgol Sul ni yng Ngharmel yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ym mis Tachwedd. Buom yn dathlu penblwydd arbennig Mr. Godfrey Northam yn ystod y bore gyda'r plant.

Clwb Dwylo Prysus

Cynhaliodd Clwb Dwylo Prysus noson arbenig ar nos Wener, 30 Tachwedd. Yn rhan o'r gweithgareddau oedd arwerthiant a welodd y bobl ifanc yn dod â theisennau cartref, bagiau o felysion a chardiau Nadolig o waith llaw i'w gwerthu. Roedd panad a mins pei i bawb, a'r bobl ifanc oedd yn gweini wrth y byrddau. Cafwyd cefnogaeth dda i'r noson a chyfanswm yr elw ar y diwedd oedd £300. Mae'r arian hwn i'w roi tuag at Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Diolch

Wrth i Angharad Llwyd ymddeol o'i swydd fel gohebydd Rachub a Llanllechid, dymuna Llais Ogwan ddiolch o galon iddi am ddwy flynedd a hanner o wasanaeth gwirfoddol gwerthfawr iawn.

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid

Yn anffodus, rhaid oedd gohirio cyfarfod Mis Tachwedd oherwydd y tywydd garw, ond wrth lwc, erbyn i Llais Ogwan eich cyrraedd, mi fyddwn wedi gweld sleidiau a chlywed sgwrs ddifyr Dr. J. Elwyn Hughes, gan ei fod wedi cytuno i gyflwyno 'Ddoe yn y Dyffryn [rhan 3]' yn ein cyfarfod Nadolig. Diolch yn fawr iawn iddo am ei hyblygrwydd. Cofiwch am ein cyfarfod ym Mis Ionawr [30], pan fydd Mr. Neville Hughes yn cyflwyno 'Dyddiau Difyr, - Atgofion am Hogia Llandegai'. Cofiwch, hefyd, am y cystadlaethau celfyddydol isod a gyflwynir gan y Clwb Hanes: [Lluniau i Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub erbyn Mai 1af 2019 os gwelwch yn dda.] Mae cystadlaethau i ddisgyblion ysgol hefyd, a bydd y manylion yn cael eu hafnion i'r ysgolion.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, Ionawr 30, 2019 am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.
Bydd **Neville Hughes** yn trafod **'Dyddiau Difyr, Atgofion am Hogia Llandegai'**
CROESO CYNNES!

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's
**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

Chwaraeon

CRICED A BOWLIO

Cynhaliwyd noson gwobrwyd Clwb Criced a Bowlio Bethesda ar gyfer tymor 2018 yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr. Ar yr ochr bowlio y rhai buddugol oedd Derek Roberts ar gyfer y tîm dydd Sadwrn, Fred Buckley o'r tîm dydd Mawrth, rhannodd Fred y tlws tîm dydd Mercher hefyd, gydag Emyr Roberts.

Ar yr ochr criced Matthew Harrington oedd prif batiwr y tîm 1af, gyda Carwyn Williams yn cipio'r wobwr am y bowlio i'r tîm 1af. Dyfarnwyd Nicholas Parry yn chwaraewr y flwyddyn i'r tîm 1af gan y Capten Jonathan Williams.

Tomos Jones enillodd y gwobr batio i'r zail dîm, bowliwr y flwyddyn i'r zail dîm oedd Ryan Williams, Ryan hefyd yn fuddugol gan ennill gwobr Chwaraewr Ieuenctid y flwyddyn y clwb. Dyfarnodd Capten yr zail dîm, Chris Hobby, mai chwaraewr y flwyddyn i'r zail dîm oedd Geraint Jones. Roedd gwobr arall i un o'r chwaraewyr ieuenctid, wrth i Dylan Hughes dderbyn gwobr am 'hat-trick' yn ei dymor cyntaf mewn

criced oedolion.

Wrth i 2019 agosau, mae digon o gyfleoedd i chwaraewyr a gwirfoddolwyr o bob math i fod yn rhan o'r clwb. Unai yn chwarae i un o'r tîmau Bowlio neu Criced, ieuenctid neu oedolion, neu mewn rôl oddi ar y cae. Unrhyw un gyda diddordeb ag eisiau mwy o wybodaeth cysylltwch gyda'r clwb drwy facebook, twitter neu drwy e-bostio cricedbethesdacricket@outlook.com. Mae croeso i wynebau newydd pob tro.

PÊL-DROED MERCHED

Mae tipyn o hanes yn perthyn i gae Pel Droed Bethesda - Parc Meurig. Y tymor yma agorwyd penod newydd yn ei hanes wrth i dim merched lleol ymuno a'r gynghrair gan ddefnyddio y cae fel ei gartref. Mae'r tîm wedi cael gryn lwyddiant ac hyd at ddechrau mis Rhagfyr maent wedi ennill llawer mwy o gemau nag y maent wedi ei colli. Yn wythnosau cynnar y tymor trechwyd timau fel Bae Penrhyn, Y Rhyl, Wrecsam ac Amlwch. Cawn fwy o hanes y clwb a'r chwaraewyr yn y rhifyn nesaf o'r Llais.

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk





Chwaraeon

**CLWB PELDROED BETHESDA
YN CEFNOGI PLANT MEWN ANGEN**
Trefnwyd raffl i godi arian at ymgyrch Plant Mewn Angen mewn gemau ieuenctid CPD Bethesda yn erbyn tim Segontiwm, Caernarfon a tim Penrhosgarnedd a fu’n chwarae ym Mharc Meurig fore Sadwrn 17/11/18. Roedd y raffl ar werth hefyd yn y gem gartref bnawn Sul, 18/11/18 pan oedd tim Merched CPD Bethesda yn chwarae yn erbyn CPD Amlwch. Roedd gwobr arbennig sef cacen wedi ei gwneud gan Cerys Elen, Ysgol Dyffryn Ogwen ac wedi ei chyfrannu i’r clwb yn dilyn ei phrynu drwy ocsiwn Plant Mewn Angen. Llwyddwyd i godi £50 i Plant mewn Angen . Diolch I bawb am y gefnogaeth .



**RYGBI
Adran 1 Gogledd**
Mae hi wedi bod yn dymor prysur iawn i Glwb Rygbi Bethesda hyd yn hyn. Fel y gwyr llawer ohonoch, mae’r gwaith o adeiladu clwb newydd fydd yn cynnwys ystafelloedd newid, swyddfeydd i’w rhentu ac ystafelloedd cymdeithasol bron â dirwyn i ben. Mae hi wedi bod yn brysur iawn ar y

caeau hefyd gyda’r Ail Dîm wedi cael ail wynt, yr Ieuenctid yn parhau a’r Tîm Cyntaf wedi cael gwell canlyniadau y tymor yma na’r un dwytha”. Mae prysurdeb y timau plant i’w ryfeddu ato, a’r gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau dyfodol sicr i gêm y bêl hirgron yn y dyffryn. Penodwyd Rhys Owen Jones yn Swyddog Hwb Rygbi yn y dyffryn. Mae Rhys yn gweithio i gyflwyno a datblygu’r gêm yn ysgolion Dyffryn Ogwen. Mae hefyd yn hyfforddi plant ac oedolion yn y clwb rygbi ac mae’n aelod gwerthfawr o garfan y Tîm Cyntaf. Dyfarnwyd Rhys yn Swyddog Hwb y Mis ym mis Hydref gan Undeb Rygbi Cymru am ei waith gyda Logan Sellers yn Ysgol Tregarth. Llongyfarchiadau mawr Rhys! Mae’r Tîm Cyntaf wedi cael canlyniadau gwell y tymor yma ac wedi ennill 4 gêm yn y cynghrair a cholli 4 erbyn dechrau mis Rhagfyr. Dim ond mewn 1 o’r gemau gollwyd y methwyd sicrhau pwynt bonws a hynny yn erbyn Llandudno, sydd ar ben Tabl Adran 1 Gogledd ar hyn o bryd. Yn y 4 gêm enillwyd, sicrhawyd pwynt bonws am sgorio 5 cais neu fwy ym mhob un ohonynt. Mae clwb yn croesawu dyfodiad Gerwyn Thomas, a fu’n chwarae fel maswr i Ddolgellau am sawl tymor. Mae Gerwyn wedi setlo’n dda yn ei glwb newydd ac mae ar ben tabl sgorio’r Tîm Cyntaf hyd yn hyn. Edrychwn ymlaen i’ch croesawu i lawr i Ddôl Ddafydd pan fydd yn clwb newydd yn barod a chofiwch - mae miloedd o hwyl i gael yn gwyllo timau rygbi Dyffryn Ogwen - dowch draw i gefnogi!

Wu Shu Kwan – Bocsio Cic Tsieineidd
Dyma lun o seremoni gwobrwyo “Black Belt” pan enillodd Jake Fitzpatrick o Fethesda ei dystysgrif “5th Degree Senior Master Instructor” . Hefyd gwobrwywyd James Fitzpatrick , 16 oed, mab Jake, gyda thystysgrif “ 1st degree Black Belt” ynghyd â Matthew Bithell o Fethesda, yntau hefyd wedi cael tystysgrif “1st Degree Black Belt”. Bu Jake yn dysgu a hyfforddi am 30 mlynedd a mwy, a bellach fo ydyw ‘r hyfforddwr Wu Shu Kwan mwyaf profiadol yng Nghymru. Mae’n cynnal dosbarth bob nos Fercher yng Nghanolfan Gymunedol Tregarth rhwng 6.30 a 8.30. Beth am alw i mewn, mae’r sesiwn cyntaf yn RHAD AC AM DDIM. Am ragor o wybodaeth ewch i’r wefan swyddogol (wu shu kwan.com) neu ffoniwch 07769 584646. Cofiwch bod raid i blant o dan 10 oed fod gydag oedolyn.



CYNTAF DRWY GYMRU
Yn ystod Haf poeth 2018 llwyddodd Natalie Owen o Rachub, sy’n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn aelod o Glwb Athletau Menai, orffen yn gyntaf drwy Gymru wrth daflu Y Morthwyl 3kg i gystadleuwyr dan 15 mlwydd oed. Yn ogystal a hyn cyrhaeddodd safle pymthegfed drwy Brydain. Ar ben hynny hi yw pencampwr Ysgolion Cymru am daflu Y Morthwyl ac ar ddiwrnod arbennig o gystadlu yng Nghaerdydd gorffennodd yn ail yng nghystadleuaeth taflu’r ddisgen. Y flwyddyn nesaf bydd yn symud i oedran uwch ac yn cystadlu yn yr oedran dan 17 mlwydd oed. Mae Natalie’n brysur gyda chwaraeon eraill hefyd, yn aelod o dim criced merched sydd yn cael eu hyfforddi yn Llandudno. Er mwyn yr holl deithio dros y tymor cystadlu mae’n rhaid wrth arian ac mae Natalie yn ddiolchgar iawn am nawdd ariannol oddi wrth, Barbwr Ogwen, Y Royal Oak, Caffi Seren, Ffenestri Cymru, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Karl Walker. Os ydych yn teimlo fel helpu Natalie yn ariannol a rhoi hwb iddi yn ei blaen, mae croeso i chwi ffonio’r teulu ar 01248 602823. Bydd Natalie yn cychwyn ymarfer ar gyfer y tymor nesaf yn fuan iawn ar ol y Nadolig. Pob hwyl iddi.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a’i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031